# ECO'R WYDDFA

Rhif 264 CHWEFROR 2000 Pris 40c


## Cap a Chapten

**Hoffwn roddi sylw arbennig i Iona Williams, y bêl-droedwraig ddawnus o Lanrug, y mis yma. Y prif reswm am hyn yw fod Iona wedi cael y fraint aruchel o fod yn gapten ar ei gwlad. Tipyn o gamp i'r chwaraewraig ganol cae, sydd hefyd wedi cael tymor llwyddiannus iawn gyda chlwb Dinas Bangor.**

Ym mis Medi roedd Iona yng ngharfan -18 Cymru ar gyfer rowndiau rhagbrofol Pencampwriaeth Ewrop dan nawdd UEFA. Cafodd Cymru wythnos lwyddiannus iawn. Curwyd Bosnia o 5-0, ac yna Lithuania o 9-0 gyda Iona yn sgorio un o'r goliau, ei gôl genedlaethol gyntaf. Yn y drydedd gêm cafwyd gêm gyfartal 2-2 yn erbyn yr Alban. Ar ddiwedd y twrnament roedd Cymru yn ail i'r Alban gyda gwahaniaeth goliau yn unig yn eu gwahanu.

Roedd perfformiadau Cymru'n ddigon da i'w galluogi i fentro i'r Eidal ym mis Tachwedd ar gyfer yr ail gyfres o gemau rhagbrofol. Yn naturiol, erbyn hyn roeddent yn erbyn y gwledydd 'mawr', ble roedd trefniadaeth a datblygiad y gêm mewn lle ers sawl blwyddyn. Rhaid cofio mai ymysg y gwledydd sy'n datblygu y mae Cymru ym myd pêl-droed merched. Serch hynny, cafwyd perfformiadau gwych. Iona oedd y capten balch pan gafwyd gêm gyfartal 0-0 yn erbyn Rwsia ym Milan. Cafodd Iona orffwys yn yr ail gêm pan gollwyd o 1-0 yn erbyn tîm corfforol Gwlad Belg.

Daeth y perfformiad mwyaf calonogol ar gyfer y dyfodol pan gollwyd o 1-0 yn erbyn tîm cryf yr Eidal. Yn amlwg, roedd Iona wedi dal sylw'r dewiswyr gyda'i pherfformiadau egnïol yng nghanol y cae. Roedd yn eilydd i dîm llawn Cymru mewn gêm gyfartal 1-1 yn erbyn Awstria yn Vienna. Pa mor bell yw'r cap llawn ys gwn i?

Soniais hefyd am ei rhan yn llwyddiant clwb Bangor. Maent yn chwarae yng Nghynghrair y Northern Premier, un safle o dan y Premier League Genedlaethol (Cymru a Lloegr). Ar hyn o bryd maent yn chweched, ac os enillir y gemau mewn llaw, byddant yn ymgiprys am y bencampwriaeth ac yna yn ymuno â'r genod mawr yn y Premier! Yn anffodus, mae'n rhaid gohirio sawl gêm clwb oherwydd y nifer cynyddol o'r chwaraewyr sy'n cael eu dewis i garfannau Cymru.

Cafodd Bangor gryn gyhoeddusrwydd pan gafwyd gêm i ffwrdd yn erbyn yr Arsenal yng Nghwpan FA Lloegr. Mae'r Arsenal yn un o brif dimau y Premier a sawl chwaraewraig ryngwladol yn y tîm. Er colli 6-1, elwodd genod Bangor o'r profiad a'r ffaith iddynt gyrraedd y rownd go gyn-derfynol yn glod ynddo'i hun.

Ym mis Chwefror, bydd Bangor yn teithio i Wrecsam ar gyfer Cwpan Cymru, cystadleuaeth mae'r clwb yn hyderus o'i hennill. Beth am sofren ar y cwbwl, dynion a merched Bangor i gipio Cwpan Cymru?

Llongyfarchiadau lu ar y fraint o fod yn gapten ar ei gwlad.

# Robin Goch yr Wyddfa




Math newydd o deithio ar gyfer Rheilffordd yr Wyddfa — CAR!

Mae car bach digri wedi bod yn rhoi gwên ar wynebau pobl Gogledd Cymru yn ddiweddar mewn ffurf 'Reliant Robin' gyda llun o drên a Rheilffordd yr Wyddfa ar ei ochr. Mae'n anodd methu'r car coch llachar wrth iddo deithio'n rheolaidd o gwmpas y wlad — mae'n siŵr o fod y fan gwaith mwya' anarferol o'i fath.

Daeth y syniad gan Kevin Leech a'i gwmni 'Heritage Great Britain PLC' sydd yn berchen ar Reilffordd yr Wyddfa ac yn brif gyfranddaliwr ceir Reliant, y byddai hyn yn hyrwyddo'r car a'r Rheilffordd ar yr un pryd, sef dau icon gwahanol iawn o'r diwydiant trafnidiaeth. Cyrhaeddodd y car yn ei gartre newydd yn ddiweddar ble y gwnaeth Emerson Hughes o 'Tal y Sarn Summit Signs' y gwaith o'i addurno.

Mae Tony Hopkins, Rheolwr Rheilffordd yr Wyddfa yn awyddus iawn i yrru'r car i gyfarfodydd twristiaeth a marchnata pwysig fel y gall farchnata wrth deithio ar hyd a lled y wlad, dywedodd:

'Mae'r "Robin Reliant" yn apelio at bawb ac yn sefy ll allan oddi wrth geir eraill. Mae hefyd yn braf gweld pobl yn gwenu fel mae'r car yn pasio.'

Pan ofynnwyd a fyddent yn cymryd rhan yn y ras Robin Reliant o Land's End i John O'Groats, sydd eisoes yn cymryd lle, atebwyd y byddai hyn yn bosibilrwydd yn y dyfodol. Gyda llaw, mae'r ddau le yma hefyd yn rhan o 'Heritage Great Britain PLC'.

Mae un broblem fach, fodd bynnag, mae'r asiant agosaf sy'n trin Reliant Robin yn Wrecsam. Felly, os oes gan garej leol ddiddordeb mewn bod yn asiant Gogledd Orllewin Cymru mae croeso iddynt ddod i gysylltiad â Rheilffordd yr Wyddfa.

## Chwefror

Byr yw dyddiau Chwefror blin
Gyda'i gorwynt oer ei fin;
Lluwchio'r eira i lawr i'r pant
Ac yn rhewi dŵr y nant.

Pan fo'r rhewynt yn y cwm,
Brigau'r coed yn noeth a llwm,
Pan fo'r borfa'n llwm a noeth,
Porthi'r braidd wna bugail doeth.

Edrych 'mlaen am grop o wyn,
Saethu'r llwynog rhag eu dwyn,
Dafad dda yw'r famog wen,
Un â chrwbi yn ei phen.

Tywydd grifft sy'n siŵr o ddod
Gyda newid yn y rhod,
'Dyw y Gwanwyn ddim ymhell
Pan ddaw eto dywydd gwell.

John V. Morris
Rhianfa, Clwt-y-bont

# ECO'R WYDDFA

Rhif 264
CHWEFROR 2000
*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*
*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*


# DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cysylltu A |
|---|---|---|---|---|
| MAWRTH | CHWEFROR 21 | MAWRTH 2 | LLANRUG | Mr Eifion Roberts |
| EBRILL | MAWRTH 20 | MAWRTH 30 | CWM-Y-GLO | Mrs Iris Rowlands |
| MAI | EBRILL 17 | EBRILL 27 | DEINIOLEN | Mr W O Roberts |
| MEHEFIN | MAI 22 | MEHEFIN 1 | BRYNREFAIL | Dilys Wyn Morris |
| GORFFENNAF | MEHEFIN 19 | MEHEFIN 29 | BETHEL | Mr Geraint Elis |
| AWST | - | - | - | - |
| MEDI | AWST 28 | MEDI 7 | DINORWIG | Miss Marian Jones |
| HYDREF | MEDI 18 | MEDI 28 | PENISARWAUN | Mrs Ann Evans |
| TACHWEDD | HYDREF 16 | HYDREF 26 | LLANBERIS | Mr Gwilym Evans |
| RHAGFYR | TACHWEDD 20 | TACHWEDD 30 | CAEATHRO | Mr Clive James |


**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Golygyddol:**
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

**Cadeirydd Pwyllgor Llywio:**
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**DYDDIADUR Y MIS**
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**DATBLYGU LLUNIAU**
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

**TREFNYDD BWNDELU**
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DEINIOLEN:** W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**NOS IAU, MAWRTH 2**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS LUN, CHWEFROR 21**
Os gwelwch yn dda

# Llythyrau

Fferm Cefn Coch
Deiniolen
(01286) 870108

11 Ionawr, 2000

Annwyl Gyd-Wladgarwyr,

Daeth yn amlwg o ganol yr wythdegau ymlaen fod bugeilio defaid ar ucheldiroedd Cymru yn cael ei redeg i lawr yn fwriadol o sawl cyfeiriad. Roedd yna bobl am weld newid defnydd y mynyddoedd ynghyd â brid y trigolion. Erbyn y nawdegau cynnar roedd yma bobl wedi dod i fyw i'n plith, a oedd yn cael eu cefnogi gan y gwahanol gyrff Llywodraethol, i gynnal gwahanol weithgareddau ar ein tiroedd a oedd yn ddinistriol i'r amgylchedd a chadwraeth. Roedd pwysau cynyddol yn dod ar y bugeiliaid, gyda llawer o ddefaid yn cael eu herlid a'u lladd gan gŵn afreolus a oedd yn dilyn ymwelwyr. O reidrwydd, er ceisio gwarchod y mynyddoedd a bywoliaeth y bugeiliaid, y sefydlwyd y mudiad 'Cyngor Bugeiliaid Ucheldir Cymru' ym mis Medi '94.

Nid cyfaddawdu gyda'r rhai a oedd yn hyrwyddo anrhefn yn yr ucheldir oedd bwriad y sefydliad, ond yn hytrach eu gwrthwynebu. O ganlyniad, daeth y mudiad yn amhoblogaidd gyda rhai cyrff ac awdurdodau, y rhai a ddylai fod wedi ein cefnogi gant y cant, hynny yw os oedd yr amgylchedd yn golygu rhywbeth iddynt. Gobeithio, yn dilyn darllen y wybodaeth sydd gerbron, y bydd y genedl yn deall cyfrwystra Llywodraeth Lloegr i droi Cymru fach yn gae chwarae i bobl o'r tu allan.

Bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, sydd yn cael ei reoli'n bennaf gan bobl o'r tu allan i Gymru, yn cyflwyno pecyn awgrymiadol i'r Llywodraeth ar y math o ddeddf sydd ei hangen a fyddai'n rhoi yr hawl cyfreithiol i'r cyhoedd wneud defnydd o'r tir, ond byddwn ar ein gwyliadwriaeth. Yn ôl y diffiniad o'r tir sydd o dan drafodaeth, bydd 85% o dir Cymru yn dod yn gae chwarae, tra bydd dim ond 6% o dir Lloegr ar agor i'r cyhoedd.

Ymhellach, nid i bobl Cymru a Phrydain yn unig y bydd y tiroedd ar agor, ond i bobl y byd. Bydd yn rhaid i bobl Cymru wrthwynebu aberthu ein cwpwrdd bwyd am gae chwarae gan ein gwneud ein hunain yn ddibynol ar wledydd eraill am ein cynhaliaeth. Coeliwn neu peidio, bydd chwarae'n troi'n chwerw, a bydd newyn drwy'r byd yn y man.

Uchelgais sydd yn deillio o'r awydd i orchfygu gan fudiad â'i wreiddiau yn Lloegr yw'r cyfan hyd y gwelaf i. Mae yma ddigonedd o lwybrau cerdded yng Nghymru, llwybrau sydd wir angen eu cynnal a'u cadw, a byddai'r Ysbytai, rwy'n siŵr, yn croesawu y miliynau o bunnau sydd ar gael at greu 'Right to Roam'.

Dafydd Morris

## Estimated Costs of National Mapping Project

| Key Tasks | Estimated Costs (£) |
|---|---|
| **Data Capture and Mapping** | |
| * Phase 1, Upland Survey and Common Land Data Capture (1:10,000) | 400,000 - 500,000 |
| * Field/Aerial Photo Validation | 60,000 - 70,000 |
| * Preparation of Draft Consultation Maps (1:25,000) | 70,000 - 90,000 |
| **Consultation 2** | |
| * Pre-publicity | 80,000 - 90,000 |
| * Identification of Consultees | 30,000 - 40,000 |
| * Organisation of Invitations to Comment on Draft Maps | 40,000 - 50,000 |
| * Hold Public Exhibitions | 100,000 - 110,000 |
| * Reviewing Responses and Modifying Maps | 50,000 - 60,000 |
| * Preparation of Draft Final Maps and Placing 'On Deposit' | 25,000 - 35,000 |
| * Independent Adjudication | 135,000 - 145,000 |
| * Preparation of Final Maps | 50,000 - 60,000 |
| **Open Access Information Provision 3** | |
| * Provision of Open Countryside Markers and Information Points | 550,000 - 650,000 |
| * Publishing Maps | (To be discussed with map publishers) |
| * Open Countryside Web Site | 15,000 - 25,000 |
| * National Access Register | 100,000 - 125,000 |
| **Monitoring and Review 4** | |
| * Habitat Monitoring | 50,000 - 60,000 |
| * Quinnenial Review of Objections Arising | 35,000 - 45,000 |

*This table sets out an indication of the estimated costs of undertaking the mapping of open countryside throughout Wales. Resource requirements for key stages of work are expressed as a broad range at this stage and include staff time, materials and expenses. The costs of copyright and royalty payments are specifically not included in the costings.*


R.D.Thomson
Crefftwaith Coed

**Uned 1A BRYNAFON LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 674100 (dydd)**
**(01286) 650732 (fin nos)**
FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

## Addunedu i Ddysgu

Ydych chi'n gysylltiedig â grŵp gwirfoddol? Boed chi'n cefnogi, yn aelod o bwyllgor neu'n ymhel o gwbl â mudiad gwirfoddol fel y Cylch Meithrin lleol, Mudiad Ffermwyr Ifanc, Age Concern, Cymorth i Ferched, Grŵp Anabledd — mae'r rhestr yn ddi-ddiwedd yna daliwch sylw oherwydd mae Mantell Gwynedd yma i'ch cynorthwyo chi i dderbyn yr hyfforddiant perthnasol rydych chi ei angen.

Daeth Mantell Gwynedd i fodolaeth ym 1997 ac fe'i sefydlwyd er mwyn gosod seiliau mudiad i gefnogi pob agwedd o weithredu gwirfoddol lleol. Mae darparu a hyrwyddo gwybodaeth yn rhan bwysig o waith Mantell ac mae nhw'n arbenigo mewn trefnu hyfforddiant. Yn wahanol i rai mudiadau sy'n tueddu i gymryd yn ganiataol eu bod yn ymwybodol beth yw eich anghenion hyfforddiant, fe sylwch fod Mantell yn barod i wrando, cydlynu a theilwrio cyrsiau a sesiynau hyfforddiant i gwrdd â'ch anghenion ac, yn holl bwysig hefyd, maent yn gallu darparu'r hyfforddiant am bris rhesymol iawn.

Mae ganddynt raglen gynhwysfawr ac amrywiol eto eleni:
*Sesiwn Wybodaeth a Chymorthfeydd y Comisiwn Elusennau - 8 Chwefror;*
*Codi Arian Trwy Gyfamodi - 10 Chwefror;*
*Noson Wybodaeth Uned Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru - 16 Chwefror;*
*'Delio Gyda Straen' - 4 Mawrth;*
*Cyrsiau i'r Sector Wirfoddol - dyddiadau amrywiol.*

Noson Wybodaeth am Comic Relief ac Ymddiriedolaeth Lloyds TSB fydd y gyntaf eleni, a gynhelir am 7.00 y.h ar Ionawr 25 yng Nghanolfan Porthmadog. Gellir manteisio ar y cyfle i ddeall mwy am raglenni grantiau Comic Relief, fydd yn cynnwys y themau 'Pobl Ifanc', 'Hawliau Pobl Hŷn a Phobl Anabl' a 'Thrais yn y Cartref'.

Rhaglenni newydd Lloyds TSB ar gyfer y flwyddyn newydd fydd 'Anghenion Cymdeithasol a Chymunedol', 'Addysg a Hyfforddiant', 'Cefnogaeth i Deuluoedd, 'Herio Difreintrdra a Gwahaniaethu' a 'Hybu Effeithiolrwydd yn y Sector Wirfoddol'.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn un neu fwy o'r hyfforddiant a restrir uchod, manteisiwch da chi ar y cyfle trwy gysylltu â Mantell unai yn swyddfa Caernarfon ar (01286) 672626 neu Ddolgellau ar (01341) 422525.

## Golwg o'r Antur gan Mary Vaughan Jones

Rydw i yn byw ar drothwy'r Antur, ac ar y dechrau roeddwn yn ansicr iawn ynglŷn â'r sefydlu.

Tybed sut yr oedd ardalwyr Bryn Pistyll o'r pentra yn mynd i ddygymod hefo dyfodiad y bobl dan anfantais? Ninnau yn ganol oed, a rhai ohonom reit hen, ac wedi hen arfer byw yn eithaf digynnwrf yn y gongl yma o'r Waun. Wyddwn i ddim beth i'w ddisgwyl.

Ond erbyn hyn, ar ôl deng mlynedd o fyw hefo'n gilydd, choeliwch chi ddim mor gymdeithasol yw'r lle, mae yna rhyw hyrli byrli braf pa bryd bynnag y galwch heibio. Mae fy nyddiau yn aml iawn ynghlwm wrth yr Antur. Canolbwynt y lle ywr swyddfa yn Ty'n Gerddi - hefo Menna yn goruchwylio'r busnes a'r trefniadau, drws nesa iddi mae Ifanwy a Haulwen hefo'r cyfrifiaduron, ac yno y byddaf yn talu am dorri'r gwair a'r gwrychoedd. I lawr y grisiau mae Donna yn fy argyhoeddi sut i drin cyfrifiadur.

Yn hen siop Bryn Pistyll mae gweithdy Gill — ac yno mae prysurdeb gwneud y siwtni a theisennau, a hefyd amrywiol drefniadau o flodau sych.

Eleni, oherwydd ein cysylltiad agos iawn â John Evans, Hafod Olau bu Gŵyl Dau Gan Mlwyddiant ei Antur yntau yn diweddu. Y dyn ifanc a grwydrodd ogledd America ac a wnaeth fapiau manwl a chywir o'r Missouri. Hefo'r mapiau yma yr aeth Lewis a Clark ar draws y cyfandir i lannau'r Môr Tawel. Cymro oedd Lewis, disgynnydd o deulu o odre'r Wyddfa. Y fo wnaeth y fargen orau fu erioed — prynu Louisianna, o ffin Canada i Gwlff Mecsico, i'r America ifanc a rhoi cadwyn dda i'r U.D.A.

## GORYMDAITH 2000

Daeth eglwysi Llanberis at ei gilydd mewn oedfa arbennig ddechrau'r flwyddyn newydd.

Er gwaetha'r tywydd oer a gwlyb mentrodd criw da o bob oed i ben draw'r pentref erbyn 5 o'r gloch nos Sul, Ionawr 2 er mwyn gorymdeithio drwy'r pentref cyn y gwasanaeth oedd i'w gynnal yn Eglwys Sant Padarn. Gorymdaith yng ngolau cannwyll oedd hon i fod, ond rhaid cyfaddef fod y gwynt a'r glaw wedi amharu rhywfaint ar y golau hwnnw! Roedd ambell un yn cael trafferth i oleuo'r gannwyll o gwbl, a'r rhan fwyaf yn ffendio fod y gannwyll wedi diffodd ymhen ychydig eiliadau. Ond fe ychwanegodd hynny hyd yn oed at hwyl y noson. Gyda llaw, roedd ambell un mwy cyfoethog a da ei fyd wedi dod â lamp olew go iawn, ac felly yn rhydd o orfod poeni am gysgodi fflam egwan y gannwyll rhag y gwynt cryf.

Erbyn amser cychwyn roedd y dyrfa wedi tyfu eto. A dal i dyfu oedd y gynffon wrth i eraill ymuno â'r cerddwyr ar y ffordd drwy'r pentref. Roedd yn braf gweld cymaint yn awyddus i ddathlu diwedd yr Ail Fileniwm Cristnogol a dechrau'r Trydydd gyda'i gilydd. Cyrhaeddwyd yr Eglwys yn ddiogel. Roedd ambell un o'r plant rywsut wedi llwyddo i gadw'r gannwyll yn olau ar hyd y ffordd.

I mewn i'r eglwys â ni ar gyfer yr oedfa oedd i ddechrau am 5.30 o'r gloch. Roedd y gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Philip Hughes. Defnyddiwyd patrwm oedfa oedd wedi ei ddefnyddio yn gynharach y pnawn hwnnw mewn oedfa arbennig yng Nghaerdydd a ddarlledwyd ar y teledu. Cymerwyd rhan gan Mr Ralph Jones, Mrs Nancy Jones, Mrs Audrey Evans, Mr John H Hughes, Mr Cledwyn Parry a Dafydd Pritchard. Canwyd caneuon gan Mrs Susan Williams a rhai o blant Ysgol Sul Eglwys Sant Padarn, o gantata newydd y mae'n gobeithio y bydd eglwysi'r pentref yn cydweithio i'w gyflwyno tua'r Pasg. Cafwyd pregethau byr gan y Parchg John Pritchard a'r Parchg Philip Hughes. Gwnaed casgliad at Gymorth Cristnogol.

Roedd yn braf gweld yr eglwys yn rhwydd lawn ar gyfer y gwasanaeth hwn. Wrth fynd allan o'r oedfa roedd pawb yn amlwg wedi mwynhau'r achlysur. Byddwn yn cofio'r noson am flynyddoedd i ddod, ac yn falch o fedru dweud i ni gael rhan yn nathladiau'r Mileniwm yn Llanberis. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am fentro allan ar noson mor aeafol.

**PEIDIWCH A GORI**
**AR STORI —**
**ANFONWCH HI I'R *ECO***


**Cyngerdd Dewi Sant**
*St. David's Concert*
Sioe Gerdd/Musical
gan/by
**Ysgol Glanaethwy**
•
**CHWAIN**
•
Neuadd Prichard Jones Hall
25, 26, 27 Chwefror/February
2000 am/at 7.30 pm
Tocynnau/Tickets: £7
(£4 i blant / children)
Noddwyr: HSBC
Elw/Proceeds: Samariaid, Ymchwil Dementia
Ar gael/Available from:
(01248) 351708



**Yn eisiau**

**CLERC**
**i Gyngor Cymuned Llanrug**

7.5 awr yr wythnos.

Tâl: £2,448 y/f a £500 y/f o gostau

Manylion am y swydd ar gael gan y Clerc
Delyth Ross, 17 Bron y Waun, Rhiwlas
(Ffôn: 01248 371691)

Ceisiadau drwy lythyr os gwelwch yn dda
**Dylai'r ceisiadau fod yn llaw y Clerc erbyn 14 Chwefror 2000**



**CEIR ADAM**



**HURIO PREIFAT**
**YN UNIG**
★
**LLEOL NEU HIRBELL**
★
**LLANBERIS**
**871539**



**Yn Eisiau**

**Staff Tymhorol (Rhan Amser)**

✖

**Coffe Pot Llanberis**

✖

Amrywiol swyddi ar gael

Am fanylion ffoniwch
(01690 720326)
ar ôl 6 o'r gloch

# CHWILOTA

## Cymry Alltud

**Blwyddyn, canrif a milflwydd newydd dda i chwi oll! A ninnau'n cyrraedd diwedd ugeinfed blwyddyn y gyfres 'Chwilota', bydd yn anodd dod allan o'r arfer o gyfeirio at y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel 'y ganrif ddiwethaf'. O hyn allan, yr ugeinfed ganrif fydd honno, a dichon na fydd llawer o 'hanes' y ganrif honno'n dechrau ymddangos yn rhifynnau'r 'Eco' dros y blynyddoedd nesaf. Ar ddechrau blwyddyn, felly dyma gyfeirio at deuluoedd alltud: gwybodaeth am rai ohonynt, a chais am wybodaeth am eraill.**



### Côr Meibion Eryri

Yn y rhifyn diwethaf o'r 'Eco' soniais am ymweliad y Côr â Chastell Windsor. O fewn ychydig ddyddiau i gyhoeddi'r papur daeth llythyr i law gan Huw Parry Jones o Ddolgarrog yn rhoi gwybodaeth ddiddorol am un o unawdwyr y côr hwnnw yn Windsor, gŵr o'r enw John Peris Jones. Dyma sut mae'n adrodd yr hanes:

*'Bu John Peris farw yn Bryn Villa, Llanberis pan oedd yn ddim ond hanner cant oed ym 1914. Roedd teulu ei dad yn wrei ddiol o'r Felin Hen, Llandegai, ond cartrefodd ei rieni yn Madog Terrace, Cwm-y-glo, neu 'Stabla' ar lafar. Dyma'r esboniad pam yr adnabyddid ef ar lafar fel Jac Bach Felin Hen neu Jac Bach Stabla.*

*Ymfudodd un o'i chwioryddi i Pennsylvania tua 1891/92, ac y mae ei disgynyddion yn byw yn nhalaith Georgia heddiw. Mae'r teulu hwn yn meddu ar un o fedalau John Peris; sef yr un enillodd am ganu solo tenor yn Eisteddfod Gŵyl Ddewi Llanelwy ar Fawrth 2, 1899. Enillodd gwpan arian yr un noson ar yr her unawd.*

*Dywed ei farwnad ei fod yn ddatganwr medrus a lleisiwr rhagorol, ac wedi ennill gwobrwyon lawer. Credaf fod gan John Peris un mab, ond ni wn ddim am ei hynt. Efallai fod aelodau o'r teulu yn parhau i fyw ym mro'r 'Eco'; yn sicr maent yn bodoli ar lannau Merswy.'*

Ceir cadarnhad o ddawn John Peris fel datganwr gan neb llai na W.J. Gruffydd (er na wn faint o gerddor oedd yr Athro). Yn ei lyfr 'Hen Atgofion' mae'n sôn am faint a roes pe cai fynd yn ôl am un nos Sadwrn i hen gapel Bethel neu i'r Cysegr i glywed 'Jac bach Felin Hen yn pyncio un o solos R.S. Hughes.'

Byddai'n ddiddorol cael mwy o hanes yr unawdydd dawnus hwn, ac a yw'r ddawn gerddorol yn parhau yn y teulu? A ble tybed mae'r capan arian a enillodd yn Llanelwy? Ydi hwnnw gan aelodau'r teulu ym mro'r 'Eco' neu ar lannau Merswy, neu'n llwyr ddifancoll erbyn hyn?

### Country Whalla', Llanrug

Ar lanau Merswy y mae'r ail alltud hefyd. Tra'n gweithio'n yr Archifdy yng Nghaernarfon yn ystod y mis diwethaf deuthum ar draws toriad papur newydd allan o'r Liverpool Weekly Post ar gyfer Gorffennaf 1939. Erthygl forwrol ydoedd ac, fel arfer, fyddwn i ddim wedi meddwl am ei darllen gan nad oes gen i mo'r diddordeb lleiaf mewn môr na chychod, ond digwyddodd fy llygaid daro ar yr enw 'Country Whalla' Llanrug, a rhaid oedd darllen!

Ysgrifennu'r oedd Evan Jones (dyna enw cywir 'Country Whalla') ar brofiadau morwyr yn teithio rownd yr Horn, ac yn amlwg yn ymateb i erthygl a ymddangosodd yn gynharach yn yr un papur. Roedd bellach yn byw yn Bootle, ond mae'n cyfeirio ato'i hun hefyd fel 'EJ Caernarfon' yn ogystal â 'Country Whalla, Llanrug'. Oes unrhyw un o ddarllenwyr yr 'Eco' yn gwybod pwy oedd hwn? Rwy'n siŵr mai gweddol brin yw'r enghreifftiau o drigolion bro'r 'Eco' a dreuliodd eu hoes yn ymwneud â morwriaeth, a byddai'n ddiddorol cael gwybod beth ddenodd Evan Jones o Lanrug i dreulio'i oes ym myd llongau.

### Alltudion America

Mae 'Llythyr o'r America' wedi ymddangos yn rheolaidd yn y papur ers peth amser bellach, ac ambell ddarllenydd yn amheus o'u dilysrwydd (gweler adroddiad arall ynglŷn â hynny.) Un sy'n derbyn copi rheolaidd o'r 'Eco' yw Olwen Ebrell yn Coventry — un arall o deulu awdur y llythyr — ac y mae'n gohebu'n rheolaidd ag Olwen Llywelyn, Trefnydd Gwerthiant Post yr 'Eco'. Yn ei meddiant mae llun o dorf o bobl o flaen Capel Coch, Llanberis. Anfonwyd copi o'r llun i Olwen Ebrell gan gefnder iddi o'r America. Llun wedi ei sganio ydyw, a cheisiwn ei atgynhyrchu yma. Does dim dyddiad arno, ond cred Olwen mai ei hen daid, William Rowlands, Victoria Villa, Llanberis yw'r hen ŵr â gwallt gwyn sy'n eistedd ar dde eithaf y llun.

Tybed a oes rhywun o'r darllenwyr yn gallu rhoi mwy o wybodaeth am rai o'r unigolion eraill yn y llun, neu am yr achlysur?

### Teulu gwreiddiol Glan Gwna, Caeathro

Dros y mis diwethaf bûm yn ceisio chwilio am hanes teulu gwreiddiol Glan Gwna. Gwn fod y stâd wedi bod yn eiddo i deulu Greaves, perchenogion chwareli llechi yn Ffestiniog, a chyn hynny ym mherchnogaeth Thomas Lloyd, banciwr o Amwythig, ond mae fy niddordeb yn y teulu a werthodd y stâd i'r banciwr nôl yn 1794-95.

Bryd hynny, perchennog y stâd oedd y Parch John Roberts, Rheithor Llanbedrog ac Archddiacon Meirionnydd. Cyn belled ac y gallaf ddarganfod, ni fu'n byw yng Nglan Gwna erioed, ond priododd un o'i ferched yn eglwys Llanrug yn 1790 gyda'r Parch Peter Williams, Bangor, a ddaeth yn ddiweddarach yn Rheithor Llanbedrog yn dilyn marwolaeth ei dad yng nghyfraith. Yng nghofrestr Llanrug, enwir Mary Roberts fel *'daughter of Archdeacon Roberts of Glan Gwna'*.

Daeth y Parch John Roberts yn berchennog y stâd oblegid fod ei fam, Mary Parry, yn gyd-aeres â'i chwaer, Blanch Parry; unig ferched John Parry, Glan Gwna. Mae cofnodion ar gael yn dangos i John Roberts brynu cyfran ei fodryb o'r stâd, sef tiroedd a elwir yn Cae Athro, Cefn y Pandy, Erw Llywelyn a Gregas. Mae rhan o Gregas, os deallaf, wedi diflannu oherwydd y ffordd newydd heibio i Gaeathro, a rhan ohono yn ffinio â chae chwarae presennol y pentref.

Gellir olrhain achau'r teulu yn 'Cyff Beuno' (oherwydd y cysylltiadau â stâd Hafod y Wern, Clynnog) a 'Pedigrees of Anglesey and Caernarvonshire Families' (J.E. Griffiths) — er nad ydynt yn hollol gytun. Yr enw cyntaf sy'n gysylltiedig â'r stâd yw Syr Thomas Williams a fu farw yn 1587. Mae'r 'syr' yn cyfeirio at y ffaith fod iddo swydd eglwysig (person neu reithor) yn hytrach nac iddo gael ei urddo'n farchog! Mae ewyllys ei ferch yng nghyfraith, Mallt Wen ach Roberts ar gael, ac mae'n dymuno cael ei chladdu yn Llanrug. Yn yr ewyllys mae hefyd yn enwi ei phlant a nifer o wyrion a wyresau.

Prin yw'r cyfeiriadau at Glan Gwna cyn 1794-95, ac mae'n amlwg mai Thomas Lloyd, yn dilyn pryniant y stâd, a fu'n gyfrifol am ei ehangu. Os oes unrhyw ddarllenydd wedi dod ar draws unrhyw gyfeiriad cynnar yn ymwneud â Glan Gwna, byddwn yn ddiolchgar o dderbyn gair neu alwad ffôn gennych.

Mae croeso hefyd i gysylltu ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes bro'r 'Eco'. Anfonwch bytiau o ddiddordeb neu ymholiadau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).


SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★

★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★

★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★

★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go Iawn ★

**Un funud fach ...**

## Defaid

Mae gen i biti dros ddefaid Llanberis. Do, rwyf finnau fel y rhan fwyaf o bobl y pentra wedi blino eu gweld o gwmpas y lle. Mae'n nhw'n niwsans yn baeddu'r strydoedd a'r gerddi, yn bwyta'r blodau a'r llysiau, yn peryglu modurwyr a cherddwyr wrth ruthro rownd conglau ac i ganol y lôn. Rydan ni wedi alaru arnyn nhw. Ond er hynny, mae gen i biti drostyn nhw.

Nid am eu bod nhw'n llwgu: mae'n nhw'n cael lle rhy dda o lawer yn ein gerddi i wneud hynny. Ac nid am eu bod nhw'n byw ar y stryd: mae'n nhw'n ddigon hapus yn crwydro'n braf ar hyd ein lonydd prysur. Piti drostyn nhw sydd gen i am nad oes neb yn fodlon eu harddel. Does yr un ffarmwr am eu hawlio. Does yr un bugail am ddweud mai fo sy pia nhw. Does neb yn gallu nabod y rhain fel ei ddefaid o. Ond dydi o'n beth od? Rhowch chi filoedd o ddefaid efo'i gilydd yn y farchnad, a bydd pawb yn gwybod i'r dim pwy sy bia bob un ohonyn nhw. Ac eto, yma yn Llanberis, fedr neb ddeud wrthach chi pwy sy bia yr un o ddefaid y stryd.

Ond mae yna Fugail sy'n adnabod pob un o'i ddefaid. Iesu Grist yw'r Bugail da hwnnw. Y proffwyd Eseia ddywedodd ers talwm ein bod 'i gyd wedi crwydro fel defaid, pob un yn troi i'w ffordd ei hun'. Rydan ni fel y ddafad golledig honno yn un o ddamhegion yr Iesu. Rydan ni wedi crwydro oddi ar lwybrau Duw, wedi anwybyddu Duw ei hun, ac wedi pechu yn ei erbyn. Ond mae Duw yn dal i'n caru. Dyna pam yr anfonodd ei Annwyl Fab yma i'r byd i farw drosom ar groes Calfaria. Ac mae Iesu Grist yn ein caru. Dyna pam y buo fo'n fodlon dioddef drosom. Ac oherwydd ei fod yn ein caru mae yn fodlon ein harddel. Mae'r Bugail Da yn mynnu dweud mai ei ddefaid ydym. Er ein bod wedi ei siomi lawer gwaith, mae'r Iesu'n dal i'n sicrhau ein bod yn perthyn iddo. Os credwn ynddo ni fydd yr Iesu byth yn troi ei gefn arnom. Nid oes peryg o gwbl i'r Bugail Da wadu yr un o'i ddefaid.

Ac fel y Salmydd gallwn ninnau ddiolch 'mai ei bobl Ef ydym a defaid ei borfa'.

JOHN PRITCHARD

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

# PENISARWAUN

**Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407**

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**



YMDDEOLIAD. Dymuna Nan o Ddeiniolen oedd yn Ofalwraig Cartref ym mhentrefi Penisarwaun, Brynrefail, Cwm-y-glo a Llanrug ddiolch i bawb am bob croeso a gafodd yn eu cartrefi ac am eu haelioni tuag ati. Diolch hefyd i'm cyd-weithwyr am eu haelioni hwythau. Bûm yn hapus iawn yn cyd-weithio gyda chwi oll.

URDD ADRAN BENTREF. Ionawr 11. Bu'r aelodau'n cadw'n heini gydag Anti Jean ac fe gafodd pawb ddigon o hwyl a symud. Diolch Anti Jean.

Ionawr 18. Daeth Miss Jên Jones at yr aelodau a chafodd pawb hwyl fawr yn chwarae gwahanol gemau.

Ionawr 25. Dethlir Noson Santes Dwynwen gydag Ann Ifans.

Sylwer ni fydd yr Adran yn cyfarfod nos Fawrth, Chwefror 1, gan fod Disgo'r Urdd yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon ar nos Iau, Chwefror 3. Bydd y bws yn gadael Penisarwaun am 5.15pm.

GWELLHAD. Yn dioddef o'r ffliw y ffarweliodd llawer ohonoch â'r Ugeinfed Ganrif a chamodd rhai eraill i'r Fileniwm Newydd yn yr un modd. Gobeithio eich bod i gyd wedi gwella erbyn hyn. Anfonwn ein cofion at Mrs Ethel Jones, Bryntirion wedi'i thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio fod Mrs Eirlys Jones, Gwynant yn gwella wedi iddi dorri ei braich a derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella i gyd.

DYWEDDÏAD. Llongyfarchiadau i Sioned a Gwyn ar eu dyweddïad dros y Nadolig.

DEUNAW OED. Pob bendith i ti Elgan ar dy ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

LLWYDDIANT. 'Hysbys y dengys y dyn' yw hanes Lois Eifion. Enillodd Radd I gyda'i thelyn a Gradd 2 gyda'r piano. Da iawn chdi. Y mae Mathew Philips yntau yn mwynhau'r piano yn amlwg gan iddo yntau basio Gradd 4 yn ddiweddar. Daliwch ati i ymarfer.

PWYLLGOR NEUADD. Atgoffir chwi'n garedig ei bod hi'n amser adnewyddu aelodaeth y Clwb Cant. Diolchir i chwi am eich cefnogaeth. Enillwyr mis Ionawr oedd: 1. Wendy Philips, Tai Arthur; 2. Jean Roberts, Tai Croesion; 3. Dewi Hughes.

Gobeithir cael hanesion difyr gan ein trysorydd, Dafydd Williams wedi iddo ddychwelyd o Cuba wedi'i daith beicio noddedig at y deillion.

YSGOLION SUL Y PENTREF. Diolchir i bawb a gyfrannodd tuag at Barti Nadolig y plant. Cyflwynodd Siôn Corn lyfr 'Storïau 2000' i bob aelod. Gobeithio y bydd yn eu hatgoffa o Gymru dros ddwy fileniwm ac y byddant yn ei drysori i'r dyfodol ac y bydd yn gofnod byw o fywyd 2000 i rannu gyda'u plant hwythau maes o law. Cyflwynwyd mygiau 2000 i'r plant hŷn. Diolch Siôn Corn am eich anrhegion gwerthfawr.

EGLWYS SANTES HELEN. Fore Sul, Chwefror 13 am 10.30 bydd ymweliad gan y Gwir Barchedig David Thomas, yr Esgob Cynorthwyol Taleithiol. Gwasaneithir Cymun Bendigaid gyda lluniaeth ysgafn yn dilyn yn Neuadd yr Eglwys.


**OSMOND SHAW**
**DEINIOLEN**

GWERTHU – TRWSIO
★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
**(01286) 870545**



**SPAR**

**Y STORFA**
**LLANRUG**
**(Richard a Meirwen Williams)**
**Ffôn: (01286) 672790**

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

**Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug**



**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR**
**Ffôn/Ffacs: 650291**

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**



**Alwyn a Sarah Jones**
**RACCA**
**PENISARWAUN**



★ Blodau ar gyfer pob achlysur
★ Dewis da o Lysiau Fferm
★ Wyau *Free Range*

Ar agor saith diwrnod

**870605**

**LLYSIAU AR GYFER PICLO**

# O SIAMBAR SELWYN

## John Cefn Bach

John oedd ei enw fo, ac roedd John yn gymeriad. Nid am ei ffraethineb chwaith, ond oherwydd ei ddiniweidrwydd. Roedd 'na sawl John ym Methel, ond dim ond un John Cefn Bach. Oedd, roedd John fel y Williams hwnnw o Bantycelyn, yn cario ei gyfeiriad yn gynffon wrth ei enw. Ei enw bedydd parchus oedd John Daniel Williams — unig fab Robert Daniel Williams, sef Bob Dan, ac Elisabeth Williams, sef Lusa Cefn Bach.

Roedd Bob Dan a Lusa wedi mynd dros yr oed delfrydol i ddwyn plentyn i'r byd pan glywid sgrechiadau cynta John o groglofft Cefn Bach. Barn y gymdogaeth oedd, mai trwy ddamwain yn hytrach na dymuniad y daeth John i'r hen fyd 'ma. Ond yn sicr, fe gafodd groeso, ac fe'i lapiwyd â moethusrwydd o awr ei eni, ac roedd hi'n greisus ar aelwyd Cefn Bach os byddai i John dishian fwy nag unwaith.

Y cof cynta' sy' gen i o John ydi'r diwrnod y buom ni yn chwarae c'nebrwn. Mynd yr oeddan ni yn un rhes o hogiau, gan ddilyn ein gilydd yn barchus drist i gladdu rhyw druan dychmygol mewn hen focs sgidia. Ceir c'nebrwn oeddan ni, ond mi lyncodd John ful gan brotestio, 'Dwi'n methu dallt pam rydach chi'n galw John bach 'cw yn John Hers,' meddai, 'hen enw gwirion.'

Roedd Bob Dan, ei dad o, yn un da am 'chase'. Un gnoc ar ddrws Cefn Bach wrth ddod o'r Band of Hope ac mi fydda Bob Dan ar ein hola ni fel ebol dyflwydd. Roedd o'n un cyflym ar ei draed a gwae ni o gael ein dal ganddo. Roedd Twm Bethal yn eistedd yn y ddesg tu ôl i John yn yr ysgol fach, a phrif bleser Twm oedd plannu pin ym mhen ôl John yn weddol gyson, gan achosi i etifedd Cefn Bach neidio gyda gwaedd o'i ddesg fel Jac y Jwmper. Yn ychwanegol at y pigiad poenus yn ei dîn, fe gâi John druan glewtan gan Jones y Sgŵl am iddo fod mor swnllyd ac aflonydd. Roedd Bob Dan yn aros i Twm Bethal ddod o'r Band of Hope un noson a gafaelodd yn ei sgrepan a'i ysgwyd fel ci ifanc yn ysgwyd dol glwt gan ddatgan ei gerydd yn glir, 'Yli'r diawl,' medda fo, 'rhaid i ti roi gora iddi - ma tin John 'cw fel bocs pupur ar d'ôl di, ac os na roi di gora iddi mi stwffia i bicwach i fyny dy din di,' gan roi coblyn o gelpan i Twm.

Roedd sedd John yn esmwythach yn Ysgol Bethel ar ôl hynny ond fuo 'na fawr ddim datb lygiad yn John fel sgolar, ac ar ddiwedd ei dymor ysgol ateb galwad Coleg y Graig fu hanes John a mynd yn blygeiniol gyda'i dad, yn ei drowsus melfared a'i sgidia hoelion mawr, i Chwarel Dinorwig. Oherwydd ei ddiniweidrwydd roedd John yn darged dyddiol i'w gyd chwarelwyr cellweirus. Gyda llaw, cyn cychwyn i'r chwarel bob bore roedd John yn cael brecwast dau gwrs, yn ei wely. Y cwrs cynta fyddai platiad o samon tun a phedair tafell dew o fara menyn — a'r ail gwrs tun cyfa o ffrwythau. Does ryfedd fod rhai o'r pentrefwyr yn cyfeirio'n gellweirus at Cefn Bach fel yr 'Imperial Hotel'.

Ar y bwrdd, wedi eu paratoi y noson cynt, roedd y tun bwyd traddodiadol, a gynhwysai yn amlach na pheidio bysgodyn siop-chips a gweddill y dorth a fyddai John wedi ei sglaffio i frecwast. Oedd, roedd John yn goblyn am 'fish a chips' ac er ei gysylltiad â Chwarel Dinorwig, fydda fo byth bythoedd wedi cyd-weld â'r William Jones enwog hwnnw.

Yn wir, wedi i'r blas-enw 'John Hers' fynd yn angof, fel 'John Fish a Chips' y cyfeirid at etifedd Cefn Bach wedyn. Does 'na fawr o flas ar bysgodyn oer, ac fe arferai John dwymo'r 'sgodyn ar stôf y caban, ac fe gâi flas arbennig ar ei ginio dyddiol. Daeth terfyn sydyn ar hyn fodd bynnag. Roedd criw direidus o hogia Ponc Hafod Ŵan wedi cynllunio i roi powdwr du yng nghrombil pysgodyn John, a phan ddaeth awr y twymo ar stôf y caban, bu bron i John druan gael sdroc pan chwythodd y 'sgodyn i fyny fel roced a landio fel 'fflat-fish' ar dô y caban. O do, mi fuo 'na ddawlio a dwrdio a chicio. Ia ciciwr oedd John pan gollai ei limpyn, ac roedd derbyn cic hegar gan flaen esgid-hoelion-mawr yn gythreulig o boenus. Rhannu porc pei ei dad fu cinio John y diwrnod hwnnw, pan fagodd ei sgodyn-siop-chips adenydd, ac o'r diwrnod hwnnw ymlaen oherwydd ei hoffter o bysgod, fe ddysgodd John sut i agor tun sardîns.

Tric arall a chwaraeuid â John oedd sgriwio ei botyn te yn sownd i fwrdd y caban a'i lenwi â thê fel 'cymwynas'. Y canlyniad wrth gwrs oedd gweld John yn stryffaglio i godi'r potyn ac yn gwyllltio'n gacwn. Fel arall y bu hi un diwrnod, sef torri tyllau mân yng ngwaelod y pot tê, ac yn naturiol pan gododd John y potyn, fe arllwysodd y te i rychau ei drowsus melfared. Do, mi fuo 'na gicio a gwyllltio y diwrnod hwnnw hefyd.

*(I'w barhau mis nesaf)*

Cefnogwch ein Hysbysebwyr


Gwynedd Hotel & Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.
Bwrdd Pŵl ar gael.
Bwydlen Bar a Restaurant.
Mae gennym bellach drwydded lawn tŷ tafarn.

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Royal Victoria Hotel
LLANBERIS
Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig
Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau
Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul
Ffôn: (01286) 870253

Fframia
GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

LONDON GARAGE
FIAT FIAT CWM-Y-GLO FIAT FIAT
ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT
GORSAF PRAWF MOT
POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO
CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD
GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234
neu Ffacs: (01286) 870066

AR AGOR:
Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.
Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00

# WAUNFAWR

**Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570**

**Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556**

CLWB 300. Dyma restr enillwyr Rhagfyr: £40: I Bracegirdle, 2 Bro Waun; £25: E Jones, 15 Bro Waun; £10: Mrs Gwenda Griffith, Trefeddyg.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad ar bnawn Iau, Ionawr 6 yn nhŷ Mrs Margaret Heaton. Croesawodd Mrs Mair W Williams, y Llywydd, yr aelodau i gyfarfod cyntaf y flwyddyn. Cafwyd adroddiad ardderchog gan Mrs Anne V Williams, yr Ysgrifennydd, ar ei hymweliad â'r AGM yn Llundain. Roedd Mrs M Southworth yn dathlu ei phen-blwydd yn gant oed ar yr ail o Ionawr, ac ar ran y Sefydliad aeth Mrs Mair W Williams a Mrs Catherine Jones i'w gweld. Gwerthfawrogodd yn fawr y ffaith fod y Sefydliad wedi cofio amdani. Bu Mrs Southworth yn aelod ffyddlon iawn am flynyddoedd. Mae Mrs Gwilym Williams a Mrs Roy Jones wedi plannu blbiau a phlanhigion ar ran y Sefydliad fel rhan o'r Prosiect 21, ac mae diolch yr aelodau yn fawr iddynt. Cafwyd hefyd rhai bylbiau i'w plannu gan Graham o Seiont Nurseries.

Dangosodd Mrs Pat Parry sut i wneud bocsus allan o gardiau Nadolig a hefyd tipyn o hanes ei chefndir. Enillwyd y raffl oedd wedi ei rhoi gan Mrs Wena Edwards, gan Mrs Mair W Williams. Diolchodd y Llywydd i Mrs Heaton am ei charedigrwydd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Yn y Gymdeithas ar nos Lun, Ionawr 10 cafwyd sgwrs gan Mrs Sioned Glyn am ei hymweliad â Phatagonia i ddysgu ysgrifennu Celtaidd i rai o'r brodorion. Roedd yn ddiddorol iawn clywed mor awyddus oeddynt i gael eu dysgu. Treuliodd y teulu dri mis difyr iawn yno. Llywydd y noson oedd Mr John Roberts, ac yr oedd wedi gwisgo fel brodor o'r wlad! Diolchwyd i Mrs Glyn gan Mrs Mary Vaughan Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Chwefror 14 pryd y ceir sgwrs gan Mr Meurig Williams ar y testun 'Caernarfon. Atgofion hen ganeri!' Croeso cynnes i bawb.

CLWB BOWLIO. I ddathlu pen-blwydd eu Priodas Ddiemwnt ar Ionawr 10 daeth Mr a Mrs John Bradshaw, Castle View a lluniaeth ysgafn i aelodau o'r Clwb Bowlio ddydd Mawrth, Ionawr 11. Mae Jack (fel y gelwir ef gan yr aelodau) wedi bod yn aelod ffyddlon a gweithgar iawn ers tua 12 mlynedd ac fel cydnabyddiaeth o hyn prynodd y Clwb gloc i'w roi i fyny yn yr ystafell Bowlio ar achlysur eu dathliad. Gwerthfawrogodd y ddau yr arwydd o ddiolch yma yn fawr iawn.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Aled Williams, Maes Teg ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach, Charlotte i Gwyneth, eu merch, a'i phriod Andrew.

Llongyfarchiadau i William a Luned Coles, Bro Waun ar enedigaeth ŵyr bychan ac i Mrs B Coles, Bryn Rhian ar ddod yn hen nain. Ar ddydd Calan, ganwyd mab bychan i Talina a David Coles, brawd bach i Christian.

PEN-BLWYDD. Bu Mrs Southworth yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn gant oed. Anfonwn ein dymuniadau gorau a'n cofion ati yng Nghartref Tyddyn Elan.

Bu Mrs K Roberts (Bryn Teg gynt) yn dathlu ei phen-bwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddi.

Hefyd bu Mr Gwynn Davies, Bryn Eithin yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 deg. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddo yntau.

ADREF O'R YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mr Arianwen Thomas, Stad Tref Eilian sydd wedi cael dod o'r ysbyty ac wedi mynd i aros i Gartref Willow Hall er mwyn cryfhau.

Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Mary Davies, Bryn Eithin a Mrs Helen Jones, Tref Eilian sydd wedi cael dod adref ar ôl treulio cyfnod mewn ysbyty.

Rydym yn gyson yn meddwl am Derfel a Mark ar ôl eu damwain. Mae Mark wedi dod adref erbyn hyn a Derfel wedi ei symud o'r ysbyty yng Nghaerdydd i Ysbyty Gwynedd.

Mae Mrs Angela Parry, Bryn Golau yn gwella wedi iddi ddisgyn a thorri ei braich.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Nelma Pritchard, Min y Grug yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Cydymdeimlwn hefyd â Mr Norman Williams, Llidiart Wen yn ei brofedigaeth yntau o golli ei fam, Mrs K Williams, Stad Croesywaun (gynt).

Hefyd Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, Mrs M Owen, Stad Tŷ Hen.

NEWID AELWYDYDD. Croesawn deuluoedd newydd i'r pentref a dymunwn yn dda i'r teuluoedd sydd wedi newid aelwyd o fewn y pentref ar eu haelwydydd newydd. Daeth Graham Rowlands a'i deulu bach, a Valeri Griffith (gynt a'i theulu bach yn ôl i fyw i'r Waun, gobeithio y byddwch i gyd yn setlo yn hapus yma.

Ymfudodd Dr a Mrs Kenneth Leathly a'u mab bychan i Dde Lloegr; Mr a Mrs A Addison ac Aimie ac Alistair i Lanfrothen, a Mr a Mrs Jones, Cartrefle i Gaernarfon. Dymuniadau gorau ichi yn eich cartrefi newydd.

TÂN GWYLLT. Croesawyd y flwyddyn a'i mileniwm newydd gydag arddangosfeydd tân gwyllt o amgylch y pentref. Dymuniadau gorau a phob bendith inni i gyd ar ddechrau blwyddyn arall.

DIOLCH. Dymuna'r Trefnydd Plygu ddiolch i Brifathro, Staff a Disgyblion Ysgol Brynrefail am eu gwaith yn plygu'r rhifyn diwethaf o'r Eco.

PEN-BLWYDD PRIODAS. Bu Mr a Mrs Bradshaw yn dathlu cyrraedd eu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt a phob dymuniad da.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod llawn o'r Cyngor ar Tachwedd 30, 1999.

Adroddwyd y bydd Cyngor Gwynedd yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o osod grid metel dros Ffynnon Pant Gwyn.

Cafwyd adroddiad fod Warden Anifeiliaid Cyngor Gwynedd yn ymweld â'r pentref o bryd i bryd yn ddirybudd er mwyn ceisio dal perchnogion cŵn sy'n baeddu ar y ffyrdd a'r palmentydd.

Mae'r Cyngor am geisio cael prisiau oddi wrth gontractwyr i dynnu'r plastr oddi ar y lloches bws ym mhen uchaf y pentref, ac yna ei baentio yn llwyd.

Bydd y Cyngor yn trefnu i ordyfiant gael ei dorri ar Lwybr rhif 12.

Yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Cyngor, bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried â yw'r addas gosod arwyddion llwybr cyhoeddus newydd (pren) lle mae rhai haearn yn bodoli, pan fyddant yn ymgymryd ag unrhyw gynllun rhwydwaith cerdded yn y dyfodol.

Cafwyd adroddiad fod Cyngor Gwynedd yn bwriadu gosod giât mochyn newydd ar Lwybr rhif 9.

Bydd y Cyngor yn ystyried yr angen am fwy o arwyddion 'Ardal Gwarchod Cymdogol' yn y cyfarfod nesaf.

Adroddwyd fod Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd am dynnu allan gynlluniau i ledu Pont Cyrnant, yn bennaf oherwydd y nifer cynyddol o gerddwyr fydd yn ei defnyddio ar ôl agor Gorsaf Drên Rheilffordd Ucheldir Cymru yn y pentref (ger y Snowdonia Park Hotel).

Adroddwyd fod cais cynllunio i greu mynedfa newydd er mwyn cael parcio car yng nghefn y tŷ yn Bryn Tawel wedi cael ei ganiatau gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Adroddwyd fod dau rybudd wedi cael ei dderbyn gan Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd fel â ganlyn:

gosod offer telathrebu yn Fuches Las, MANWEB Sub Station;

estyniad i sied amaethyddol presennol yn Ffridd Felan.

Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i gais cynllunio i roi estyniad i gwrtil presennol y tŷ ac adeiladau mynedfa newydd yn Tyn y Coed.

Mae'r Cyngor am argymell i Gyngor Gwynedd eu bod yn rhoi arwydd ar Bont Cyrnant ac Afon Gwyrfai fel rhan o brosiect i arwyddo afonydd, llynnoedd a phontydd drwy Wynedd.

Gwnaed ymateb i Gynllun Trafnidiaeth Leol Cyngor Gwynedd, i Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri ac i Ymgynghoriad-Deddf Llywodraeth Leol 1999 (Gwerth Gorau) Heddlu Gogledd Cymru.

Bydd yr Heddlu yn cael eu hysbysu o'r peryglon sy'n deillio o blant yn chwarae pêl-droed o dan olau'r stryd ar stad Dôl Erddi.

Mae'r Cyngor am argymell i Gyngor Gwynedd fod y llinellau dwbl melyn ger y siop sglodion yn cael eu hymestyn hyd at Manchester House, er mwyn gwella gweledigaeth traffig yn tynnu allan i'r ffordd fawr o'r gyffordd.

Nodwyd fod y Cyngor wedi derbyn tystysgrif yr Archwiliwr Lleol am y flwyddyn ariannol 1998-99.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar Ionawr 13, 2000 yn y Ganolfan, Waunfawr am 7 o'r gloch.


Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.



IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.



Am ddim
i gartref da



Ci bach (cross bred)
naw wythnos oed

Ffoniwch
(01286) 650200

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

CYDYMDEIMLO. Ddydd Iau, Ionawr 13 yn 92 mlwydd oed yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Jennie Griffiths, Llys Arfon, Ty'n y Clwt gynt. Estynnir pob cydymdeimlad ag Arthur Maurice, Hillary a'r teulu yn eu profedigaeth.

DIOLCH. Dymuna Ann Ellis Williams, Y Ddolwen Fach ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chydweithwyr am eu caredigrwydd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r aelodau ar Ionawr 12 yn neuadd yr ysgol gynradd o dan law yr is-lywydd Glenys Griffiths. Dymunwyd gwellhad buan i Ifan Rowlands a Geraint Hughes. Y wraig wadd oedd Eirlys Williams a chawsom noson ddifyr o goginio a blasu'r bwyd. Diolchwyd iddi gan Mair Read. Darparwyd y te gan Alys Jones ac Ellen Ellis. Enillwyd y raffl gan Mary Evans. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 9 pryd y bydd Emlyn James yn ymuno â ni i wneud caligraffi.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, Ionawr 18 yn festri Bethel, yng nghyfarfod cyntaf y Gymdeithas am eleni cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni y Parchedig Harri Parri. Cafwyd hanesion Pregethwyr at Iws Gwlad, sef pregethwyr fu â'u cyfraniad i fywyd ysbrydol a chymdeithasol eu hardal yn fawr ond nad ydynt yn cael eu cyfrif yn 'bregethwyr mawr', megis John Williams Brynsiencyn, Elfed ac eraill.

Diolchwyd i Mr Parri gan y Parchedig Gwynfor Williams.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Chwefror 15 yn festri Bethel pryd y disgwylir Mr Vaughan Huws i annerch.

DATHLU'R NADOLIG. Bu nifer o weithgareddau i ddathlu'r Nadolig a'r Mileniwm yn Y Cysegr. Fore Sul, Rhagfyr 17 cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul gyda'r plant i gyd yn cymryd rhan. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd mwg y Mileniwm i'r plant i gyd. Brynhawn Mawrth, Ionawr 19 cynhaliwyd parti i'r plant ieuengaf a nos Wener, Ionawr 21 aeth y plant hynaf i nofio i bwll nofio Bangor ac i Byrger King i orffen y noson.

SEFYDLU'R PARCH W.R. WILLIAMS. Ddydd Sadwrn, Ionawr 15, yng Nghapel Woodlands Road, Altrincham cynhaliwyd cyfarfod sefydlu'r Parch W.R. Williams yn ei ofalaeth newydd. Aeth nifer o gyfeillion Mr Williams o Fethel ac o gapeli eraill yr ofalaeth i'r cyfarfod i ddymuno yn dda iddo yn ei ofalaeth newydd.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr Tachwedd oedd - £20: Emrys Read, 5 Cefn Cynrig (89); £10: Rhian Bardsley, 3 Stad Eryri (106); £5: Mary Evans, Swyn Eryri (79); Hefin Jones, 7 Stad Eryri (113); Wyn Morris, Fachell (136); Ella Roberts, Acer Las (216); Idris Jones, Tyddyn Oer (115); Pat Jones, 15 Tan-y-buarth (32); Ceris Williams, Llyfnwy (107); Rachel Hughes, Coed Bolyn (122).

# NEWIDIADAU

Peth rhyfedd mae'n wir yw i berson ifanc sôn am y ganrif ddiwethaf, a sôn eu bod wedi eu geni yn y ganrif ddiwethaf. Un peth fydd yn sicr, bydd pob un ohonom yn gweld newidiadau rhyfeddol yn nhrefn cymuned a chymdeithas yn y dyfodol. Bydd patrwm byw, gwaith a hamdden yn sicr o newid.

Un a welodd newidiadau mawr ym Methel yw Annie Elisabeth Williams, a anwyd yn Glan Gors Uchaf, ond sydd erbyn heddiw yn Tŷ Newydd. Cafodd ei geni yma ac mae wedi byw yma gydol ei hoes. Dyma rai o'i hatgofion hi am ganrif olaf y fileniwm ddiwethaf yn ei geiriau ei hun:

'Ganwyd fy mam, finnau a'm merch hynaf — y tair ohonom yn dair cenhedlaeth — yn Nhŷ Newydd. Mae Bethel wedi hen gynyddu ers fy mhlentyndod ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Caeau fyddai'n gwahanu Bethel a Saron yr adeg hynny. Erbyn hyn, tai sy'n 'tyfu' ym mhobman. Ble mae Gorffwysfa heddiw roedd becws y pentref gyda'r bara yn cael eu gwerthu yn y siop ble mae'r Post heddiw. Ar y gornel ble saif Tŷ Elidir heddiw roedd y Post yr adeg hynny. Y mwyaf o siopau rwy'n ei gofio yma oedd wyth. Rhyfedd i feddwl fod mwy o siopau yma pan roedd y boblogaeth llawer iawn yn llai. Ymysg y siopau roedd dwy siop grydd, torrwr gwallt, siop baraffin yn Saron ac un arall ym Methel. Roedd efail y gof yma hefyd. Efallai i rai ei gweld hi'n rhyfedd i sôn am Fethel a Saron fel petaent ar wahan. Dyna oedd y sefyllfa y pryd hynny a phlant yn mynd o un i'r llall ar eu 'gwyliau' i dŷ nain neu fodryb! Y newid m wyaf wrth gwrs yw agosatrwydd y gymdeithas, gyda phawb ers talwm yn adnabod ei gilydd, a phwy oedd yn byw yn lle.

Weithiau, deuai stori fawr. Yn 1922 cafwyd y ddamwain fawr rhwng trên chwarel a lori baraffin ger Tyddyn Andrew. Rhyfedd meddwl am drên yn mynd trwy Fethel ond erbyn hyn mae'r trên a'r chwarelwyr wedi mynd.'

# Cyfle i Ddiolch

Roedd i Gymru ei Jac Glan Gors. I Fethel rhoddwyd Goronwy Glan Gors. Ie, rhodd fu Goronwy i ardal Bethel. Wedi ymlwybro i fod yn was fferm yn Nhŷ Mawr o'i Fodedern enedigol. Dyma'n wir un o gymeriadau yr ardal, a gerddodd yr ardal yma i gynorthwyo a chynnal, ac a hefyd gerddodd filltiroedd o goridorau ysbytai i ymweld a chysuro. Yn ei dro bu'n gynghorydd cymuned ac aelod blaenllaw o sawl pwyllgor — o'r neuadd i'r eisteddfod. Dyn yr 'overalls' fu Goronwy erioed, a'r 'overalls' a'r cap ar osgo, mae'n siŵr, yw'r darlun naturiol ohono.

Mae cysylltiad Goronwy â Chapel Cysegr yn estyn yn ôl i'w ddyfodiad i'r ardal, a bu yn flaenor ffyddlon ers 1963. Ef, yn sicr, yw tad y sêt fawr erbyn hyn. Mae ei gof am hanes y capel yn wych, a braf yw ei glywed yn sôn am rai o gyfarfodydd mawr y capel a phregethwyr mawr y cyfnod, yn enwedig Tom Nefyn.



*Goronwy gyda'r Parch W.R. Williams.*

Yma magodd Goronwy deulu, a balchder mawr iddo ef a Mair yw eu bod erbyn hyn yn daid a nain, wedi 'gwirioni'.

Ers 1964, Goronwy fu'n gyfrifol am lyfr y cyfraniadau. Tipyn o waith yw hyn, gan fod adroddiad blynyddol unrhyw gapel yn cael ei darllen gyda chrib mân. Mae 36 o flynyddoedd o gadw 'cownt' yn dipyn o wasanaeth. Yn ddiweddar ni bu Mair yn dda, a dymuniad Goronwy oedd trosglwyddo'r gwaith. Derbyniwyd hyn gyda diolch amhrisiadwy iddo am ei ymroddiad. I nodi'r achlysur cyflwynwyd llyfr iddo gan y swyddogion ar ran aelodaeth y capel. O gofio'i wreiddiau, mae'n siŵr fod y llyfr o 'Ddywediadau Naturiol Môn' yn plesio.

Bu Goronwy yn agos iawn at y Parch W.R. Williams, a'u cefndir yn eu closio yn naturiol. Gyda balchder, ac efallai ddeigryn, y derbyniodd Goronwy y fraint o gyflwyno W.R. i'w braidd newydd yn y gwasanaeth sefydlu yn Altrincham yn ddiweddar. Ymysg hoelion wyth yr enwad, rhoddodd Goronwy araith naturiol, ddidwyll llawn atgofion. Roedd yr aelodau a drafaeliodd yno o'r ardal yma yn hynod falch ohono. Diolch Goronwy, nid yn unig ar ran ycapel ond hefyd yr ardal. Bydd yn siŵr o alw heibio o hyd i gyhoeddi rhyw ddigwyddiad a'n cymell gyda'r 'trade mark' — "Wnewch chi gofio?"

**Goronwy Jones**

I Fethel rhoddodd fwytha' —
i weini
A chynnal y gwanna';
Trwyddo, capel yn clwa
O air Duw, trwy flaenor da.

R.L.J.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?
YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)
Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)
CDH
Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu
Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol
CREDWCH! HOLWCH!
ffonlwch (01286) 830609
— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

DAFYDD OWEN
TRYDANWR
Pob math o waith trydanol a Larwmau Lladron
Aelod o'r NICEIC
11 Rhes Faenol
LLANBERIS
Ffôn: (01286) 871680

# NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

CYDYMEIMLWN â Mr Melfyn Pritchard, Llys Awel, yn y brofedigaeth o golli ei fam, Mrs Nellie Wyn Pritchard. Bu farw Mrs Pritchard ym Mhlas Pengwaith ym mis Rhagfyr, ac anfonwn ein cofion at y teulu cyfan.

GWELLHAD BUAN. Gobeithio fod Mrs Prydwen Pritchard, Llys Alaw yn gwella wedi'r godwm a gafodd yn ddiweddar. Bu raid iddi dreulio sbel yn Ysbyty Gwynedd ar ôl cael damwain a syrthio i lawr y grisiau. Gwellhad buan i chi.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Helen Mai a Bedwyr, Gwastadanas ar enedigaeth eu mab Aron Gwynant ar Ragfyr 23. Llongyfarchiadau hefyd felly i Meirion a Rhian Pritchard, Tŷ Isaf, ar ddod yn daid a nain unwaith eto.

PIANO. Llongyfarchiadau i Gwenno Pritchard, Sŵn y Nant ar basio arholiad Piano, Gradd 1.

RYGBI. Mae Jaco Mullane, Cae Gwyn, wedi cael dyrchafiad i dîm rygbi 'A' hogia Gwynedd. Llongyfarchiadau mawr iddo, a dal ati, Jaco.

DYWEDDÏAD. Dymuniadau gorau i Owen Davies, 1 Tan y Bryn a Maria Davies, 13 Caradog Place, Deiniolen ar eu dyweddïad. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu. Pob lwc hefyd i Owen yn ei swydd newydd gan iddo gael ei benodi'n athro yn Ysgol Uwchradd Llanidloes.

GENEDIGAETH. Ganwyd merch fach, Ayse, i Jill a Cumali, 6 Bro Glyder ar Ragfyr 3. Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau gorau.

LLUN Y MILENIWM. Mae'r pentrefwyr yn ddiolchgar i Bwyllgor y Carnifal am y llun hardd o'r Nant a roddwyd iddynt i ddathlu'r Mileniwm. Diolch am y gwaith caled sy'n cael ei wneud gan y pwyllgor trwy'r flwyddyn. Diolch yn arbennig i Mrs Gwenda Roberts, Glanrafon am, drefnu'r parti Nadolig a gofalu am y llun i bob cartref.




*Cynhaliwyd ein 'Parti Pentra' ar nos Wener, Rhagfyr 3. Roedd wedi ei drefnu gan Bwyllgor y Carnifal. Mwynhawyd gwledd benigamp wedi ei pharatoi gan Richard a Llinos, Ty'n Llan ac ymwelodd Siôn Corn â ni ar gefn y Frigad Dân gan ddosbarthu anrhegion i'r plant. Yn ystod y noson, coronwyd Brenhines y Carnifal, Anna, gan ei rhagflaenydd Gwenno a chyflwynwyd hen ddarlun o'r Nant, wedi ei fframio, i'r holl drigolion — anrheg gan y Clwb Carnifal i gofnodi'r Milflwydd. Cytunwyd fod traddodiad cymdogol y Nant yn fyw ac yn iach. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.*

Tybed a all rhai ohonoch roi benthyg hen luniau o bentref Nant Peris i mi. Rwy'n chwilio am bob math o luniau yn ymwneud â'r Nant: lluniau plant Ysgol Nant Peris ar wahanol gyfnodau; lluniau hen adeiladau'r pentref, neu unrhyw lun o ddigwyddiadau cymdeithasol gwahanol. Mewn gwirionedd unrhyw lun a fyddai'n rhoi awgrym o hanes y pentref a'i bobl dros y blynyddoedd. Byddai cael enwau'r bobl sydd yn y lluniau yn help os yn bosibl. Fe gymeraf bob gofal o'r lluniau a'u dychwelyd atoch ar unwaith.

Gwilym Roberts
Cerrig Drudion
Nant Peris
Ffôn: (01286) 871327




**Yn yr ardd!**
**WIL G. ROBERTS**
**Bod Gwilym, Cwm-y-glo**
**Ffôn: (01286) 870674**
GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL



**GWYNANT PIERCE**
Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc


**AM OFFER TŶ A GARDD . . .**
**FORMAG**
**41A STRYD FAWR, LLANBERIS**
**Ffôn: (01286) 872501**

**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**



Cyrhaeddwch mewn steil —
mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill
Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

**Ffrwythau a llysiau ffres**
**ar gael bob amser**



**'STAR'**
57 Stryd Fawr
Llanberis 870555
**Defnyddiwch eich siop leol — mae'n llawer mwy cyfleus**

**Cig Bethel**
OEN CYMREIG LLEOL CYFAN
AM £1 Y PWYS
★
PORC LLEOL
AM 75c Y PWYS
★
GWYLIWCH AM EIN PRISIAU
ARBENNIG AM ŴYN LLEOL
Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

## Cynllun Ardal y Llechen

Ffurfiwyd Cynllun Ardal y Llechen ym 1997 er mwyn sicrhau adfywiad economaidd cynaladwy i'r cymunedau sydd wedi dioddef o ganlyniad i ddirywiad y diwydiant llechi a'r ail strwythuro diwydiannol. Bu Cyngor Gwynedd yn llwyddiannus yn ei gais am gyllid o'r Swyddfa Gymreig ar gyfer datblygu Canolfannau Dysgu Gydol Oes fel rhan o'r cynllun hwn, ac yn ychwanegol llwyddwyd i ddenu arian o Ewrop i ymchwilio i anghenion sgiliau'r ardaloedd dan sylw, ac i hyrwyddo dysgu gydol oes ymysg y cymunedau. Prif rôl y canolfannau hyn fydd rhoi cyfle i weithwyr a phoblogaeth yr ardal gael mynediad at hyfforddiant sgiliau perthnasol a'r cyfle i ddatblygu eu hunain drwy gyrsiau ac adnoddau gwerthfawr. Ymhellach mae tîm bychan yn gweithio ar y prosiect o edrych ar anghenion busnesau yn Ardal y Llechen ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer y Canolfannau Dysgu Gydol Oes, a fydd yn rhan o'r ddarpariaeth llyfrgell yn yr ardaloedd penodol. Prif amcan y gwaith a wneir yw sicrhau bod y ddapariaeth yn cyd-fynd ag anghenion sgiliau'r dyfodol yn yr ardal ac hefyd bod gweithlu parod ar gael yno.

Mae llawer o waith eisoes wedi ei wneud i adnabod anghenion cyflogwyr, ac mae llawer o gyrsiau safonol iawn hefyd yn cael eu cynnig yma ac o fewn pellter hwylus. Nid ein rôl ni yw cymryd lle'r rhain ond yn hytrach eu cyfoethogi a chynnig cyrsiau nad ydynt ar gael yn lleol. Bydd canolfan hwylus a modern yma a chyfleusterau dysgu o bell a chyda'r tiwtor. Cydweithio gyda asiantaethau ac yn benodol â'r prif ddarparwyr yw'r nod — a chynnig cyfle i astudio pynciau yn lleol nad ydynt ar gael ar hyn o bryd efallai. Er mwyn sicrhau bod y Ganolfan yn ymateb i'r galw lleol mae'n rhaid cael eich sylwadau — chi ŵyr beth sydd ei angen, sut a phryd, a beth fuasai fwyaf manteisiol i chwi. Bydd angen inni adnabod hefyd anghenion busnesau i'r dyfodol — pa gymwysterau a sgiliau fydd ei angen ar fusnesau lleol pan yn recriwtio staff ymhen rhai blynyddoedd. Mae angen hefyd annog y gymdogaeth leol i fanteisio ar y cyfle i uwchraddio eu sgiliau neu i feithrin sgiliau newydd i ymateb i alw busnesau lleol.

Rhaglen y prosiect felly fydd adnabod anghenion sgiliau'r busnesau lleol ac i gynnig hyfforddiant a chyfleoedd yn y Canolfannau i unigolion, staff a pherchnogion busnesau i ddilyn rhaglenni sydd yn ymateb yn uniongyrchol i anghenion busnesau yr ardal — nid model cyffredin yw'r ateb ond yn hytrach model pwrpasol i Ddyffryn Peris. Os am fwy o fanylion neu sgwrs bellach gellir cysylltu â Wendy Roberts Swyddog Maes ar (01286) 679721.

# Dosbarth St Ioan Deiniolen yn y 40au



*Dyma lun o ddosbarth St Ioan Deiniolen. Tynnwyd y llun pan oeddynt yn gwersylla ym Mhwllheli tua 1943-44, yn ystod y rhyfel. Yn ôl y cyfrif mae 14 o'r rhain wedi marw. Yn gofalu am y grŵp oedd Mr Isaac Hughes a Mr David Jones.*

## Clwb Eryri

Yng nghyfarfod cyntaf y mileniwm ac yn nannedd y tywydd gerwin, y ffliw a'r anwydau, rhoddwyd cefnogaeth deilwng i'r amgylchiad. Cyfeiriodd y llywydd, John Emlyn Hughes, at nifer oedd yn wael a dymunodd adferiad llwyr a buan iddynt. Cyflwynwyd siaradwr y noson, y Dr. Eurwyn Evans gan John Roberts Williams, oedd yn amlwg wedi gwneud cryn ymchwil i'w gefndir a'i yrfa. Cafwyd sgwrs ysgolheigaidd a diddorol ar yr enigma hanesyddol/chwedlonol hwnnw, Arthur y Brythoniaid, oedd yn amlwg yn ffrwyth chwilota manwl i'r hyn a wyddys amdano mewn ffaith a ffansi. Yn sicr, taniodd ddychymyg ac edmygedd haneswyr, storïwyr a beirdd ers ei eni yn niwloedd yr Oesoedd Tywyll wedi machlud yr Ymerodraeth Rufeinig. Anodd yw cael cytundeb mewn ffaith ac amser ar ei fodolaeth, a bregus ac anelwig yw ei le mewn hanes. Oherwydd hyn, wrth gwrs, crewyd hinsawdd rywiog i'r dychymyg nyddu chwedl a stori amdano, a mawr fu brwdfrydedd Gerllt Gymro, Syr Thomas Mallory a'r Fam Eglwys hithau, ymysg eraill, yn crisialu eu mytholeg am ei ddylanwad a'i weithredoedd gorchestol a gwladgarol.

Wedi trafodaeth ddifyr o'r llawr, cynigiwyd y diolchiadau gan y Dr. Raymond Wiliams.

Bydd cyfarfod nesaf y Clwb ar nos Wener, Chwefror 5 a'r siaradwr fydd Gwyn Hefin Jones, Brynrefail, gyda Arwel Jones, Penisarwaun yn y gadair. Ar y noson hyderir y gellir rhoi manylion pellach am drefniadau'r Cinio Gŵyl Dewi ar Chwefror 25.


**SGIPIAU ANFRAG**
(ROBIN THOMAS)

- DOMESTIG A MASNACHOL
- SGIPIAU 6, 8 a 10 LLATH
- TRWYDDED LAWN I GLUDO GWASTRAFF
- GWASANAETH 7 DIWRNOD

HEFYD YN DELIO
MEWN METEL SGRAP
METALAU HAEARN A DI-HAEARN



Ffôn: 870753 neu 660118
Symudol: 0498 636559
TAN Y FOEL, GALLT Y FOEL, DEINIOLEN

**GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI**
**BRYNGWYN**
Glanhau i fusnesau a chartrefi
Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug
(01286) 674416 neu (07880) 847161

# NEWYDDION O YSGOL BRYNREFAIL

## Llwyddiant Cerddorol



Llongyfarchiadau i dri disgybl am basio arholiadau offerynnol. Guto Wynne, Gradd 4 hefo pass yn y Cornet Bb; Sioned Jones, Gradd 3 hefo merit yny Cornet Bb; Ifan Owen, Gradd 3 hefo distinction yn y Cornet Bb.

## Enillwyr y Clwb Cant

**Hydref 1999**

1. Elsie Owen, Llanrug;
2. D.W. Evans, Penisarwaun;
3. B.W. Hughes, Llanrug.

**Tachwedd 1999**

1. Selwyn Lloyd, Llanrug;
2. D.W. Evans, Penisarwaun;
3. Iona Williams, Llanrug.

**Rhagfyr 1999**

1. Dwynwen Williams, Llanrug;
2. Ellen Jones, Ysgol Brynrefail;
3. Selwyn Lloyd, Llanrug.

## Gala Nofio yr Urdd




Nos Wener, Ionawr 21 cychwynodd 14 o ddisgyblion yr ysgol am hanner awr wedi tri am Lanelli i gymryd rhan yn Gala Nofio Cenedlaethol yr Urdd. Diolch i Mrs Lowri Roberts am fynd a hwy ym mws mini yr ysgol a phob lwc i'r criw. Bydd y canlyniadau yn y rhifyn nesaf.

## Atgofion o Barti Pendalar

Rhagfyr 16, 1999

Buom ni, fyfyrwyr y Chweched Dosbarth yn Ysgol Brynrefail, wrthi eto eleni yn casglu prês i'r enwog ddigwyddiad hwnnw, Parti Nadolig Ysgol Pendalar. Ers pymtheng mlynedd bellach, cynhelir y digwyddiad hwn yn yr ysgol, a phob tro mae'r chweched dosbarth wedi chwarae rhan hanfodol i wneud y parti yn brofiad bythgofiadwy i ddisgyblion Pendalar.

Ein nôd gwreiddiol oedd casglu £1,300 er mwyn prynu'r anrhegion a darparu'r adloniant ar gyfer y plant, ond fe lwyddom i gasglu hyd at £2,000, diolch i'r toreth o roddion oddi wrth nifer o fusnesau lleol ac i archfarchnad Safeway yng Nghaernarfon, a fu mor hael a gadael inni godi arian am naw awr solat ar Dachwedd 26, 1999.

Heb amheuaeth, y rhai a wnaeth ein hysbrydoli a'n sbarduno ni fwyaf oedd Elfed Morgan Morris, Lucy Anne Smith ac Amanda Blay, prif drefnwyr a chydlynwyr y digwyddiad. Fe lwyddon nhw i gysylltu â'r grŵp gwerin enwog 'Broc Môr' a berfformiodd rhywfaint o ganeuon poblogaidd i'r plant. Cyn i'r grŵp chwarae, cymerodd Elfed y llyw gyda chymorth ei 'helpwyr Siôn Corn', Gwenan Evans a Kelly Williams.

Coginio, lapio anrhegion ac addurno'r ffreutur — dim ond rhai o'r amryw bethau y buom yn eu gwneud yn y broses o baratoi. Yn ffodus, roedd gan y rhan fwyaf ohonom ddigon o egni i ymuno â'r parti a diddanu'r plant! Bu un myfyriwr yn arbennig, Iolo Glyn Roberts, yn chwarae rôl Siôn Corn ac fe gyflwynodd i bob digybl anrheg a 'chwdyn cymysg', wedi eu rhoi gan y Daily Post.

Profodd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol ond, yn bwysicach byth, gadawodd pob un plentyn furiau'n hysgol gyda gwên. Fel chweched dosbarth, gwnaethom yn siŵr fod y plant yn mwynhau eu hunain, ac roedd y wên ar eu hwynebau yn brawf ein bod wedi llwyddo.

*Geraint Edwards a Catrin Pepper*




## Diolch

Dymuna myfyrwyr chweched isaf Ysgol Brynrefail ddiolch i'r busnesau canlynol am gyfrannu'n hael tuag at barti llwyddiannus i blant a phobl ifanc Ysgol Pendalar.

**Llanberis:** Hairlines; Becws Eryri; Fferm Fêl; Siop Esgidiau; Gwesty Padarn Lake; Cae Coch; A.G. Allsup, y Cigydd; Formag; Gwesty'r Victoria; Spar.

**Deiniolen:** Crefft Elidir; Wellington Inn; Garej Beran; Modurdy Arfon; Cwmni Bysiau Ieuan Williams; Thomas a Jones; Ysgol Gwaun Gynfi.

**Llanrug:** Garej Hafod; Wavell Roberts, y Cigydd; Bysiau Arvonia; Elaine's Hairdressers; Ysgol Gynradd; Caffi Cefn Coed; Garej B & R Williams.

**Cwm-y-glo:** Garej Cwm-y-glo

**Brynrefail:** Parc Carafanau Snowdon View.

**Fachwen:** Menter Fachwen.

**Bethel:** Clwb Ieuenctid; Ffenestri Celtic.

**Llanddeiniolen:** Gwesty Ty'n Rhos.

**Waunfawr:** Gwesty Snowdonia Park.

## I Lerpwl i weld y Brodyr

Dydd Iau, Ionawr 6 bu criw o ddeugain o fyfyrwyr cerdd blynyddoedd 10-13 ar ymweliad â theatr yr 'Empire' yn Lerpwl, i weld y sioe gerdd gan Willie Russell, 'Blood Brothers'. Yn chwarae'r prif ran oedd Bernie Nolan, gynt o'r 'Nolan Sisters', ac yn wir yr oedd ganddi lais anhygoel, ac yn ddi-os hi oedd seren y sioe. Bu'r criw i weld sawl sioe yn y gorffennol ond, ym marn llawer o'r myfyrwyr, yr oedd hon yn sefyll allan, gyda'r gerddoriaeth yn gofiadwy a'r stori yn un a ddaeth a deigryn i lygaid rhai ohonom. Yn ddi-os cafwyd diwrnod gwerth chweil a buaswn yn argymell i unrhyw un fynd i weld y sioe.

## Pob Hwyl yn Fflorida

Erbyn bydd y rhifyn nesaf o'r Eco i law, bydd 30 o'n disgyblion a 7 aelod o staff wedi bod yn Fflorida. Dymunwn yn dda iddynt yno a gobeithio am ambell stori o'r haul pan ddychwelant.

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn Y Ganolfan ar Ionawr 13. Unwaith eto ni fu gweithred gan Gyngor Gwynedd ar nifer o faterion, gan gynnwys cyflwr y grisiau i Afon Efail Fach a gwelededdd lle mae'r llwybr cyhoeddus o'r cae chwarae yn croesi'r ffordd newydd a'r ffordd i'r Llyn Uchaf. Bydd Cyngor Gwynedd yn prynu dau arwydd Gwarchodaeth Cymdogaeth ar gyfer Bryn y Gof a Thai Glangwna/Erw Wen. Ynglŷn â llif traffic heibio Tai Brynteg, gofynnir i'r Gwasanaeth Tân sicrhau fod injan dân yn medru pasio trwy'r pentref ar adeg o argyfwng gyda'r nos.Hefyd argymhellir fod lein wen yn cael ei pheintio ar fynedfa y lôn gefn i Fron Gwna er mwyn atgoffa perchnogion ceir i basio mewn modd gofalus. Pe bai rhywun yn fodlon cyflwyno tendr torri glaswellt y llwybrau cyhoeddus dylid cysylltu â'r Clerc, Dewi Jones, 13 Erw Wen.

Archwiliwyd drafft cofrestr strydoedd ar ran Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd cadw lefel y Treth Cyngor yr un lefel â '99/2000. Gofynnwyd i Gyngor Gwynedd naill ai llwybr 46 neu 47 o ffordd Waunfawr i Ddyddyn Whiggin er mwyn agor y llwybr cyhoeddus, hefyd yr angen i atal tipio'n slei ar ochr y ffordd ac yn y cae gyferbyn â Phont Pwll y Bar.

DIOLCHIADAU. Dymuna pensiynwyr yr ardal ddiolch i Bwyllgor Cae Chwarae y Pentref a chyfranwyr y Dynfa Fisol am eu rhodd a cherdyn adeg y Nadolig. Diolch yn fawr i chi.

TEULU COLLEDIG. Bu Mrs Heather Jones, merch y diweddar Henry Pritchard, Cwm-y-glo (chwaer Esther Morris, Caernarfon) yn holi ynglŷn â hanes y Parchedig Morgan (Moses) Jones. Bu farw Moses Jones ym 1924 yn 84 oed a'i gladdu ym mynwent y plwyf, Llanrug. Am gyfnod hir roedd e'n byw yn Llys Forgan, Llanrug ond ychydig cyn iddo farw bu'n sâl a symudodd i fyw gyda'i gefndryd yng Nghaeathro. A oes rhywun yn gwybod hanes y teulu yng Nghaeathro neu'n perthyn i'r cefndryd? Byddai Heather Jones, sy'n byw yng Nghaer, yn hoffi gwybod mwy am hanes ewythr ei nain (Ellen Pritchard, née Roberts), Cae Dicwm, Penisarwaun). Cysylltwch â Clive James gyda'ch newyddion.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 11.00 bob bore Sul. Disgwylir y pregethwyr canlynol yn ystod mis Chwefror.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Fisol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am fis Ionawr oedd: £40: Doris Muherfeld, 9 Tai Glangwna; £25: Marc Bee, 5 Tai Glangwna; £15: O Thomas, Llwyn Celyn £5: E Burke, Arosfan.

PARTI MILFLWYDD Y PLANT. Diolch i gyfraniadau parhaol aelodau'r Tynfa Fisol, roedd posib i Bwyllgor y Cae Chwarae gyflwyno llechen bach i ddal diod (coaster) i bob plentyn a pherson ifanc oed ysgol gynradd ac iau hyd at Flwyddyn 5 yn yr Ysgol Uwchradd (57 i gyd) adeg y parti yn Nhafarn Bryngwna ar Wyl Banc y Milflwydd. Hefyd cyflwynwyd llechen yr un i'r gwesteuwyr, Willie a Brenda Anderson i ddiolch am eu lletygarwch.

## Y Sefydliad Coffa, Llanrug

Disgwylir i'r gwaith o ymestyn a gwella'r Sefydliad Coffa yn Llanrug ddechrau yn ystod yr wythnosau nesaf a gobeithir y bydd wedi'i gwblhau cyn diwedd yr haf.

Bydd y Pwyllgor yn trefnu mwy o weithgareddau er mwyn cyrraedd y targed a cheir mwy o wybodaeth am hyn yn y rhifyn nesaf.

Dyma fanylion am gostau'r gwaith a sut yr ariannir y gost.

**Manylion am gost ymestyn a gwella'r cyfleusterau:**

| | |
|---|---|
| Costau cychwynol | 2541 |
| Gwaith adeiladu | 163207 |
| Ffioedd Proffesiynol | 18157 |
| Dodrefn / Offer | 3044 |
| Cyfrifiaduron | 8817 |
| | 195766 |

**Sut yr ariannir y gost**

| | |
|---|---|
| Grant Cynnal - Comisiwn y Milflwydd | 90000 |
| Cyngor Gwynedd - Grant adfywio Bro | 40000 |
| Gweithgareddau | 23356 |
| Y Cynulliad Cymreig | 22500 |
| Lloyds TSB | 3690 |
| Cronfa Begwm | 2000 |
| Cronfa James Pantyfedwen | 2000 |
| Parc Carafannau Brynteg | 2000 |
| Rhoddion er cof am y diweddar Gwyndaf Jones | 1609 |
| Grant Llwybr/Pathway | 1599 |
| Gwaith gwirfoddol (Lowri Angharad) | 1500 |
| Grant RIBA | 750 |
| Llŷg | 700 |
| Hafod Garage | 500 |
| Cyfraniadau eraill | 3561 |
| | 195766 |

# Cyngor Cymuned Llanberis

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau, Ionawr 20 yn Angorfa gyda'r Parch John Pritchard yn y gadair. Dymunir gwellhad buan i'r Cynghorydd Bert Parry yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty.

Roedd nifer o bentrefwyr wedi mynegi pryderon ynglŷn ag ail-leoli sedd gyhoeddus ger Dôl Peris, a phenderfynwyd peidio gosod y sedd ar unrhyw ran o'r Stryd Fawr ar hyn o bryd.

Derbyniwyd copi o hen Gynllun Parcio a Thrafnidiaeth Llanberis. Penderfynwyd paratoi copi i bob aelod, a bydd ei gynnwys yn cael ei drafod yn llawn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Didolwyd eitemau gwariant y Cyngor am y flwyddyn 2000-2001, gyda chynnydd bychan yn y gwariant o'i gymharu ac eleni.

Nid oedd gwrthwynebiad i geisiadau cynllunio am dirweddu tir gen Pont Penllyn ac adeiladu tŷ unllawr ger Gwesty Dolbadarn.

Adroddwyd y byddai'r gwaith o ledu a gwella'r llwybr ym Mynwent Nant Peris yn dechrau ddiwedd fis Ionawr os byddai'r tywydd yn caniatau.

Derbyniwyd llythyr gan yr Heddlu ynglŷn â phroblem gynyddol defaid crwydrol yn y pentref. Adroddwyd hefyd fod grid, a fyddai'n gymorth i leddfu'r broblem, i'w adeiladu ar Ffordd Clegir. Mae'r Cyngor eisoes wedi clustnodi swm o arian tuag at y gwaith.

Darllenwyd llythyr gan y Gwasanaeth Tân yn pryderu am yr anhawster o recriwtio gweithwyr i'r Gwasanaeth yng Ngorsaf Llanberis. Pwysliesiodd yr aelodau yr angen i gadw'r gwasanaeth yn Llanberis, ac apeliwyd ar i unrhyw un yn yr ardal sydd â diddordeb yn y gwaith i gysylltu â'r Gwaasnaeth Tân.

Mae Ymddiriedolaeth Ynys Enlli yn trefnu i ddisgyblion ysgolion cynradd ymweld ag Ynys Enlli yn ystod tymor yr haf. Er fod cymorth a nawdd ariannol wedi ei dderbyn eisoes, mae'r Ymddiriedolaeth yn brin o tua £3 ar gyfer pob plentyn. Mae 29 o blant Ysgol Dolbadarn i ymweld ag Enlli a phenderfynodd y Cyngor gyfrannu £100 tuag at yr ymweliad.

Trafodwyd problem ynglŷn â diogelwch plant ifanc a chyfrifoldeb am blant ifanc yn teithio o Nant Peris i Ysgol Dolbadarn. Penderfynwyd anfon at yr Awdurdod Addysg i dderbyn eglurhad ar y sefyllfa.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn Angorfa ar nos Iau, Chwefror 17.

# Antur Waunfawr

ANTUR WAUNFAWR

## Ydach Chi yn Un o'r Waun?

Os ydych chi, tybed a oes ganddoch chi lun neu luniau, taflen, llythyr, cerdyn cyngerdd neu unrhyw beth diddorol ynglŷn â Waunfawr?

Mae'n debyg eich bod yn gweld fod gwerth ynddynt i rywun rhywdro a'ch bod yn eu cadw'n ofalus.

Ond a ydych chi weithiau yn meddwl beth fydd eu hanes pan na fyddwch chi yma mwy i'w gwarchod — yn ofni hwyrach y byddant yn mynd i rhyw fin neu sgip, neu'r tân?

Byddai hynny yn drueni mawr gan fod gan bob llun a dogfen ei stori ei hun i'w dweud am fywyd yn y Waunfawr.


Fel y gwyddoch efallai, mae Antur Waunfawr yn casglu y pethau gwerthfawr hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel i'r cenedlaethau sy'n dod. Ein bwriad yw cael un 'stafell yn y Tŷ Capel fydd yn Amgueddfa/Llyfrgell i'r ardal.

Gallwn eich sicrhau y bydd popeth a dderbyniwn yn cael eu cadw'n ddiogel, eu cofnodi yn swyddogol a'u harddangos yn y modd gorau posib. Byddwn hefyd yn cofnodi enwau'r rhoddwyr.


**OS OES GANDDOCH CHI UNRHYW BETH I'W DROSGLWYDDO I'N GOFAL BYDDWN YN FALCH O GLYWED GENNYCH.**


## Allech chi fod yn Gyfaill?

*Os ydych yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu gweld eich hunan fel*




Cyfaill Llythyr    E-byti



Ffrind ffôn

**Cysylltwch â CYD nawr!**

Mae'n gwneud byd o wahaniaeth i ddysgwyr os ydyn nhw'n gallu cyfathrebu â Chymry Cymraeg trwy lythyr, ffôn neu e-bost. Os hoffech chi helpu, anfonwch manylion o'ch

- enw • cyfeiriad
- rhif ffôn (os berthnasol)
- cyfeiriad e-bost (os berthnasol)
- oedran (yn fras) • a diddordebau

i CYD, 10 Maes Lowri, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AU.
Ffôn/ffacs: (01970) 622143,
E-bost jjt998@aber.ac.uk
a dywedwch pa fath o ffrind (llythyr, ffôn neu e-bost) yr hoffech fod.

*Cofiwch, does dim angen llythyr na sgwrs hir.*

# DEINIOLEN

**W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259**

EBENESER A CHEFNYWAUN. Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr ysgol Sul yn Ebeneser fore Sul, Rhagfyr 19. Roedd plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan a braf oedd gweld y sêt fawr yn llawn ohonynt. Diolch yn fawr iawn i athrawon yr ysgol Sul am eu holl waith drwy'r flwyddyn. Diolch yn arbennig i'r rhai a fu'n hyfforddi'r plant ar gyfer y gwasanaeth. Cafwyd Parti Nadolig yr Ysgol Sul yn y festri a diolch am bob help a chyfraniad tuag at lwyddiant y parti. Cyflwynwyd anrhegion arbennig i gofio'r Mileniwm i'r plant gan yr Ysgol Sul.

CYNGOR EGLWYSI. Cynhaliwyd Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn Eglwys Llandinorwig nos Sul, Rhagfyr 19. Roedd aelodau o holl eglwysi'r pentref yn cymryd rhan, ac roedd y gwaasnaeth yng ngofal y Parchg Gareth Parry a Tegid Roberts. Cafwyd paned a mins pei wedi'r oedfa. Nos Lun, Ionawr 10 cynhaliwyd Oedfa Ddechrau Blwyddyn yng Nghapel Libanus dan arweiniad y Parchg Olaf Davies. Y Parchg Tegid Roberts oedd yn llywyddu.

DYWEDDÏAD. Dymuniadau gorau i Maria Davies, 13 Caradog Place ac Owen Davies, 1 Tan y Bryn, Nant Peris ar eu dyweddïad. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

CLEIFION. Gobeithio fod pawb a fu'n wael dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd yn gwella erbyn hyn.

CYFEILLION EGLWYS CRIST, LLANDINORWIG. Cynhaliwyd cyfarfod nos Fercher, Ionawr 5 gyda'r Parchedig Tegid Roberts yn llywyddu. Y gŵr gwadd oedd y Parchedig Gordon Campbell Owen o Fangor. Cafwyd noson hynod o ddifyr yn ei gwmni yn sgwrsio a dangos sleidiau am Ystâd Dinas Vatican sydd ar lan yr Afon Tiber yn Rhufain. Diolchwyd iddo gan y Parch Tegid Roberts.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, Ionawr 7 am 7 o'r gloch. Mr Rol Williams, Waunfawr fydd y gŵr gwadd a bydd yn siarad am Hen Deuluoedd Gwaun Cwm Brwynog.

LLONGYFARCHIADAU i Gwenllian Ann Owen, 7 Caradog Place ar basio arholiad Piano Gradd 1 gan nain a taid, 13 Hafod Oleu.

GENEDIGAETH. Ar Hydref 28, 1999 ganwyd Annest Mair, merch fach i Barry a Gillian Price a chwaer i Iwan Trefor.

DIOLCH. Dymuna Barry a Gillian Price, 1 Hafod Garregog, Clwt-y-bont ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r gofal a gawsom ar achlysur genedigaeth ein merch Annest Mair.

DIOLCH. Dymuna Anti Lynda ac Anti Sian ddiolch i'r pwyllgor ac i bawb sydd wedi cefnogi yr Ysgol Feithrin yn ystod y flwyddyn 1999. Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

DIOLCH. Dymuna Lynda Owen ddiolch ar ran teulu Eilir Wyn Williams, 1 Pentre Helen i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at y gronfa. Y swm a gasglwyd iddo oedd £4,350.37. Diolch yn fawr iawn am y gefnogaeth.

## DRAENOG



**Wyddoch chi beth yw 'syrth' neu 'dribliwns'? Mae un gŵr o Ddeiniolen yn GYNEFIN â'u hystyr wedi iddo anghofio eu tynnu nhw allan o'r twrci cyn ei goginio ddiwrnod Dolig.**


**Wavell Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
*PEN CIGYDD Y FRO*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!





*Llongyfarchiadau i Claire Louise Thomas (10 oed - canol yn y llun), merch Edwina a Richard Thomas, 23 Pentre Helen ar gael ei dewis gan 'School of Excellence' i chwarae pêl-droed i dîm genethod Bangor. Da iawn Claire.*

## Yr Hawl i Grwydro *Right to Roam*

Mae'r Parciau Cenedlaethol
A'r morfil mawr 'Cefn Gwlad',
Ar gais hen Sais gorchestol,
Am werthu Cymru'n rhad.

Am ennyd 'nawr, nid wyf yn siŵr
Ai'r morfil mawr gynghorai'r gŵr?
Ac yntau'n awr, yn ôl ei reddf,
Yn benderfynol o wneud Deddf.

Hen wendid llawer Cymro,
Er ceisio ennill clod,
Yw rhuthro i gytuno
Heb wybod beth sy'n dod.

A chwi'r amaethwyr bodlon
Sy'n tybio fod eich tir
Yn ddiogel rhag y lladron,
Mewddyliwch eto'n wir.

Darllenwch y dehongliad
A mynnwch wybod pam
Bydd tiroedd pori dwys y wlad
I gyd o dan eu sang.

Bydd pobl o bellafoedd
Â'r hawl i'ch tiroedd chwi,
A'r bradwyr yn eu nefoedd
Bydd dathlu mawr a sbri.

A'i dyma fydd y terfyn,
Dieithriaid ym mhob Cwm?
Ail adrodd dwyn Tryweryn
A'r Cymry'n cysgu'n drwm.

Cymerwch gyngor frodyr
A safwn dros ein gwlad,
A chofiwn oesau llafur
Ein tad, a thad ein tad.

Ac os mai eisiau chwarae
Sydd ar y ffyliaid ffôl
A mynd a ffon ein bara
Trwy ddwyn pob bryn a dôl.

Dangoswn ninnau iddynt
Fod gennym barch i'n gwlad,
Fod gwaith a hynt a helynt
Yn ddigon heb sarhad.

Dafydd Morris


**GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO**
**24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos**
**PLUM24CYM**
**Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwms**
**Gwaith cynnal a chadw o bob math**
**Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR**
**Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)**

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER
PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU . . !
**RHOSTIO MOCHYN**

**AR GYFER POB ACHLYSUR**
★ Cig o ffermydd lleol ★ Partïon rhwng 40 a 400!
★ Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau ★ Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

PRYD I BAWB
Bwffe at bob achlysur

*Bwffe blasus o safon ar gyfer*
CINIO BUSNES
CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG
MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD
PRIODAS
TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU
*yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni*
CERID MACKINNON
(01286) 673190
neu (0374) 925502

# LLANBERIS

**Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491**

**Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390**

COFIO MAUD. Dydd Sul, Rhagfyr 12, 1999 bu farw Maud Jones o 1 Stryd y Dŵr, Llanberis gynt o Foderwyddon, Y Bryn, Carmel, wedi gwaeledd hir.

Ar ddechrau canrif newydd, yn nhrymder gaeaf, byddwn yn edrych ymlaen tuag at y gwanwyn gyda natur yn adfywio, y coed yn magu'i dail a bywyd yn parhau fel y gwnaeth ers cyn cof. Rhyfedd o beth yw natur. Nid yw bob amser yn deg nac yn gyfiawn. Tra bo'r tymhorau'n dilyn un ar ôl un yn flynyddol, mae sawl un ohonom ni, yr hil ddynol, yn gadael cyn gweled diwedd hydref ein hoes a chyn teimlo oerni a chaledi ein gaeaf.

57 oed oedd Maud pan fu farw yn llawer rhy ifanc i adael yn hydref cynnar ei bywyd.

Roedd Capel Coch, Llanberis ac Amlosgfa Bangor yn llawn hyd yr ymylon ddiwrnod ei chynhebrwng, tystiolaeth o'i phoblogrwydd a'r parch tuag ati gan deulu a chyfeillion o bell ac agos.

Nid oedd Maud yn un am gwyno. Er dioddef triniaeth frwnt yn ystod ei blwyddyn olaf, roedd ei chonsyrn cyntaf am ei theulu a'i ffrindiau, gan holi sut mae o neu hi a chuddio ei phoen ei hun.

Nid oedd Maud yn berson cyhoeddus chwaith, ond roedd yn un o'r bobl hynny y gallai rhywun ddibynu arni am gymwynas neu i wneud ei rhan mewn gweithgareddau lleol, yn ddi-ffws ac yn ddi-ffwdan. Roedd yn un o hoelion wyth ei chymuned, yn gadarn ac yn saff.

Rhai prin yw pobl fel Maud. Mae llwer gormod ohonom yn rhy barod i gwyno neu i ymofyn hunandosturi, ond ni wnaeth hynny hyd yn oed yn ystod ei gwaeledd caled iawn. Mae ein cydymdeilad llwyr ag Alan, Wendy, Gillian, y plant bach a'i theulu.

Mae'r tymhorau'n dilyn i Maud. Er nad yw hi yma bellach, bydd ei genod, ei hŵyr a'i hwyresau yn sicrhau y gwêl wanwyn eto, ac nid gaeaf diwedd canrif oedd ei gaeaf olaf hi.

*Gerallt Llewelyn, Carmel*

PRIODWYD Iona a Rodney yng Nghapel Coch Llanberis ddydd Sadwrn, Hydref 16, 1999. Yn gweinyddu yr oedd y Parch John Pritchard. Yn rhoi cymorth fel morynion roedd Carys Cole-Jones (ffrind), Alicia Jones a Kelsey Collins (nithoedd). Y ferch flodau oedd Karina Collins (nith). Y gwas oedd Emlyn Cole-Jones (ffrind). Bu'r brecwast yng Ngwesty Fictoria, Llanberis a bu'r mis mêl yn y Dominican Republic. Mae Iona a Rodney wedi ymgartrefu yn 19 Stryd yr Wyddfa, Llanberis.

DIOLCH. Dymuna Iona a Rodney Collins, 19 Stryd yr Wyddfa ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas. Carai'r ddau ddatgan eu diolch i bawb fu'n gymorth iddynt gyda'r holl drefniadau. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Dymuna Alan a theulu y diweddar Maud Jones, 1 Stryd-y-Dŵr ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Hefyd y llu cardiau, galwadau ffôn a rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Uned Alaw, Ysbyty Gwynedd. Fe gasglwyd £1,600.

Diolch i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth, cymorth a geiriau caredig ac i Mr E.W. Pritchard a Gwynfor Jones am yr holl drefniadau.

DIOLCH. Dymuna Rita a Hugh Morris, 26 Maes Padarn ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, arian, blodau, galwadau ffôn a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mair Jones, Fflat, 74 Maes Padarn ddiolch i Rhiannon, ei pherthnasau a'i ffrindiau am y blodau, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed.

DIOLCH. Dymuna Bert Parry, Sycharth, ddiolch o galon i'r canlynol am y gofal a dderbyniodd yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar: holl staff Ysbyty Gwynedd, yn arbennig staff Ward Dulas a'r Ward Gofal Arbennig, Meddygfa Waunfawr a Llanrug, teulu, ffrindiau a chymdogion lu. Diolch i chi i gyd.

CAPEL COCH. Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr ysgol Sul brynhawn Sul, Rhagfyr 19 gyda holl blant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan. Diolch i'r athrawon am eu gwaith yn trefnu ar gyfer yr oedfa, ac am eu holl waith dros flwyddyn arall. Cafodd y plant eu parti Nadolig nos Fawrth, Rhagfyr 21. Roedd digonedd o fwyd a chafwyd hwyl fawr efo gemau amrywiol wedyn. Diolch i bawb a gyfrannodd at y parti mewn unrhyw ffordd. Daeth Siôn Corn heibio eleni eto wrth gwrs, ac roedd y plant wrth eu bodd i'w weld. Roedd hi'n noson oer, a hyd yn oed Siôn Corn wedi gorfod cael menyg newydd y pnawn hwnnw cyn mentro allan i oerni'r nos. Diolch iddo am ddod atom eto efo'i anrhegion. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd nwyddau at barti Nadolig y Cyfarfod Plant a gynhaliwyd ddydd Mawrth, Rhagfyr 14.

CLEIFION. Bu amryw byd yn dioddef o'r ffliw dros gynfod y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Gobeithio eich bod yn gwella erbyn hyn.

DIOLCH. Dymuna Ann Pritchard, Madryn, Stryd Newton ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a chyfeillion am bob cymorth a charedigrwydd a dderbyniodd yn dilyn ei damwain yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH. Dymuna Annie Pritchard, Ffordd Padarn ddiolch yn fawr iawn am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn Ysbyty Gwynedd Bangor, Ysbyty Walton Lerpwl ac ar ôl dod adref. Diolch am y cardiau, y blodau, yr anrhegion, y galwadau ffôn a'r ymweliadau. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH. Dymuna Megan Jones, Minffordd ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn, anrhegion a blodau a dderbyniwyd ganddi ar ôl llawdriniaeth yn yr ysbyty. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Ward Ffrancon, Ysbyty Gwynedd.

FFAIR YSGOL DOLBADARN. Roedd yna Ffair yn Ysgol Dolbadarn ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 14. Yn y ffair roedd yna raffl a'r gwobrau oedd hampers bwyd, walkman, lamp o Piggery Pottery a basged ffrwythau. Hefyd roedd yna stondin deganau a raffl i ennill pêl-droed tîm Wrecsam. Roedd y bêl hefo llofnod chwaraewyr y tîm i gyd arni. Llongyfarchiadau mawr iawn i Tomos a Robin Parry ar ennill y bêl-droed.

Roedd y plant bach yn canu Carolau am 6 o'r gloch a'r Adran Iau yn canu am 6.15. Roedd côr yr ysgol yn canu tair Carol hefyd. Yn gyntaf hoffem ddweud diolch i bawb ddaeth i'r ffair. Rydym wedi casglu £900 i'r ysgol. Diolch unwaith eto am gefnogi yr ysgol ac am ddod i'n gweld yn canu. Diolch a Nadolig Llawen a Milflwydd Hapus lawn.

PLAS PENGWAITH.

Rhagfyr 5 mwynhawyd noson ddifyr yng nghwmni Côr Lleisiau Lliwedd, gyda diolch yn fawr i Mrs M Hughes, Mr G Jones a merched y côr.

Ffair Nadolig. Ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 11 cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn yn y Cartref a gwnaethpwyd elw o £1,483.71. Hoffem ddiolch o galon i bawb o'r busnesau a phob leol a wnaeth ein cefnogig trwy gyfrannu'r amryw wobrwyon at y raffl fawr ac hefyd ar y diwrnod er gwaethaf y tywydd. Dyma restr yr enillwyr: Enw'r Tedi oedd Peter - enillydd Sion Wyn; Enw'r Ddoli oedd Delyth - enillydd Derek, PPG. Raffl Fawr: Hamper - John 601814479338; Vodka - Nansi Owen, Plas Ogwen; Whiskey - Carl 870755; Night Light - Menai Jarvis, PPG; Toiletries - Kim Hughes 660712; Frame - Twm Penlan; Torch - Mair, PPG; 42 Piece Set - Betty Owen, 90 Maes Padarn; Fact Finder Book - Paul Selivan 01222573500; Torch - Rhiannon 870732; 30 Min Chef Book - 1817550562; Artist Set - 677108; Dinner For Two - Iorwen 870012; Coffee Percolator - Will 871397; Turkey Dinner - Mrs Iola Owen, 3 Snowdon Street; Glo - Linda Evans, 6 Bro Eglwys, Bethel; Gateaux - Carys, 52 Maes Padarn; Meat Voucher - Doreen, 50 Maes Padarn; Kettle - Doreen, 50 Maes Padarn; Slate Picture - 675813; Plant - G Hughes 871583; Milk Tray - Wendy Caton 01248 410286; Thorntons - 872288; Jug & Bowl - McQuinnie; Fruit Hamper - 01248 671063; Flower Pot - Myfanwy 871289; Wine - Darren Ellis, 54 Maes Padarn; Wine - Derek, PPG; Wine - Alex Ross, c/o Margaret Owen; Wine - Dafydd 676391; Wine - Ian Morgan 01222 573500; Wine - Grace 870270; Garden Clock - Angharad Roberts 01248 670686; Television - Margaret / Catherine Ross; Lottery - 01758 720759; Shampoo Set - Hugh Jones, 29 Maesincla; Christmas Cake - Den Bud 872156;



*Iona a Rodney Collins, 19 Stryd yr Wyddfa, a briodwyd yng Nghapel Coch, Llanberis ar Hydref 16, 1999.*

Celebrations - McQuinnie, 42 Bron y Garth; Rose Wine - S Hood 881168; Vermouth - Mr a Mrs Munro, Llanrwst; Sherry - 01286 672455; Wine in a Basket - Carol 01286 872406; Vodka - Jake Williams 01248 681898; Bara Brith - 01286 674048; Bottle of Wine - Reg 01286 870183; Turkey - 870911; Charlotte Church CD - 134430627; Bottle of Babycham - M Pitts, 2 Bro Rhythallt; Tin Bisgedi - Ffion 830120; Bottle Country Manor - Anne Williams, PPG.

Croeso cynnes i Anne Edwards i'w swydd yn y gegin. Gadael Ysgol Gynradd y Waunfawr y mae i ddod atom. Gobeithio y bydd hi'n hapus yma gyda ni.

Diolch yn fawr i bawb sydd yn gefnogol i'n Bingo bob dydd Mercher. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth ac mae'r arian yn mynd i Gronfa Mwynderau'r Preswylwyr.

Ddydd Mawrth, Rhagfyr 14 aeth y mwyafrif o'r trigolion allan i Westy Brenhinol Vicotria am eu Cinio Nadolig ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Diolchodd Mrs Christine Williams a Mrs L Williams i Mrs Beryl Jones am y gwaith gwerthu yn y Cartref dros yr wythnosau diwethaf ac fe dderbyniodd dlws o flodau ac anrheg am ei gwaith. I ddarfod y prynhawn cafwyd canu Carolau yn y lolfa. Diolch i Mr B Thomas a Ms H Morris am roi o'u hamser, hefyd y staff ar y diwrnod a staff y gwesty am eu gwasanaeth.

Hoffai swyddogion a phawb yn y Cartref ddiolch yn fawr i Mr a Mrs Hughes, Gwesty Tywysog Cymru am eu rhodd a gasglwyd ar y noson, hefyd diolch i Mrs M Parry am ei rhodd.

Er mai dim ond am gyfnod byr y bu Mrs A.M. Morris, Deiniolen gyda ni, trist yw cyhoeddi ei marwolaeth yn yr ysbyty fis diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu.

Eleni eto fe fu newidiadau yn y Cartref. Mae Christine Williams, ein Swyddog Mewn Gofal yn ein gadael. Mae wedi ei phenodi i swydd ym Mhlas Hedd, Bangor fel Swyddog y Cartref. Hoffai'r staff a thrigolion y Cartref ddymuno'n dda iddi a gobeithio y bydd mor hapus yno ag a fu hi yma gyda ni.

# BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

YMDDEOLIAD. Dymuna Nan o Ddeiniolen oedd yn Ofalwraig Cartref ym mhentrefi Penisarwaun, Brynrefail, Cwm-y-glo a Llanrug ddiolch i bawb am bob croeso a gafodd yn eu cartrefi ac am eu haelioni tuag ati. Diolch hefyd i'm cyd-weithwyr am eu haelioni hwythau. Bûm yn hapus iawn yn cyd-weithio gyda chwi oll.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Garry Jones a Helen Lyon, Cae'r Madog ar eu priodas ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Cynhaliwyd y seremoni ar ynys Sri Lanka.

PUM CENHEDLAETH!
Croesawodd Colin a Dorothy Wager y flwyddyn 2000 gyda llawenydd. Llongyfarchiadau iddynt ar ddod yn hen daid a nain ar nos Calan. Ganed merch fach, Allana Jade i Sarah ac Allen, wyres gyntaf i rieni Sarah, Ashley a Carolyn Wager, 5 Tai Orwig. Mae Allana hefyd yn or-wyres gyntaf i Bob ac Ethel Wiliams, Dinorwig, ond yn bennaf oll, llongyfarchiadau mawr i Jane Ellen Wiliams, Caernarfon ar ddod yn hen, hen nain i Allana Jane.

PRIODAS AUR. Dathlodd Wilbert ac Eirlys Williams, Marino eu Priodas Aur ar Ionawr 11. Llongyfarchiadau iddynt ar achlysur mor arbennig. A hwythau wedi hedfan o oerni'r gaeaf i ynys sydd â'i hin yn llawer cynhesach, gobeithio iddynt gael dathliad i'w gofio.

COFION. Mae llawer un o'r pentref wedi bod yn cwyno gydag amrywiol anhwylderau dros y Flwyddyn Newydd. Anfonwn ein cofion atoch i gyd gan ddymuno gwellhad buan i bawb. Ein dymuniadau gorau i Mrs Blodwen Evans, Cae Gwyddel sydd wedi bod yn glaf yn Ysbyty Gwynedd.

LLIFOGYDD. Yn dilyn y glaw eithriadol o drwm a gafwyd yn ddiweddar roedd y llifogydd ar y naill ochr i'r ffordd osgoi wedi cyrraedd eu huchafbwynt ar y deuddegfed o Ionawr. Dyna'r diwrnod y bu rhaid i rieni plant y cyffiniau sefyll yn gadarn ac, fel mater o brotest, gadw eu plant, pymtheg ohonynt, gartref o Ysgol Gymuned Cwm-y-glo. Ers blynyddoedd bellach, wedi glawogydd trwm, mae gorlif o garthffosiaeth, a hwnnw yn cynnwys pob math o sylwedd annymunol, yn byrlymu o'r gwterydd ac yn llenwi'r ffordd o gyfeiriad y pentref a Threm Eilian. Sylw dros dro mae'r mater wedi ei gael o du'r awdurdodau dros gyfnod maith a chyndyn fu neb i ysgwyddo'r cyfirfoldeb i fynd yn derfynol at wraidd y broblem.

Rhoddwyd sylw yn y Wasg ac ar raglen Newyddion HTV i'r sefyllfa o ganlyniad i Mrs Dorothy Wager, y bostfeistres, gysylltu â hwy a rhoddwyd safbwyntiau teg gan ddau riant, Mr Paul Lockett a Mrs Delyth Jones. Deallwn hefyd fod Mrs Wager wedi dwyn y mater gerbron Mr Dafydd Wigley AS/AC ac o ganlyniad cyflwynwyd y mater i sylw swyddogion Iechyd Cyhoeddus. Hyderwn y bydd y broblem hon yn cael ei setlo ar fyrder, unwaith ac am byth.

DOSBARTHU A PHLYGU'R ECO. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Dilys Wyn Morris am fod mor barod i ymgymryd â'r gwaith o fod yn brif ddosbarthwr yr Eco yn y pentref o hyn ymlaen. Hi hefyd fydd y Trefnydd Plygu ar noson plygu'r Eco pan ddaw tro Brynrefail i wneud y gwaith gyda rhifyn Mehefin.

EGLWYS BRESBYTERAIDD BRYNREFAIL. Cynhaliwyd dau wasanaeth ar y Sul cyn y Nadolig. Yn oedfa'r prynhawn cafwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu'r Wyl a'r Mileniwm newydd dan nawdd plant yr Ysgol Sul a rhai o aelodau'r Eglwys. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr R.W. Evans. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mr Gwyn Hefin Jones. Cylfwynodd Amy Lambert, Caryl ac Awen Jones a Rhian ac Anna George dan arweiniad Lowri Roberts Wiliams a Mair Davies neges y Nadolig a'r Mileniwm newydd mewn tair golygfa. Llongyfarchiadau iddynt am weithio mor galed a throsglwyddo'r cyfan mor gyffrous a brwdfrydig ac i Mrs Dilys Morris am gynorthwyo i addurno'r Festri a pharatoi'r llwyfan. Cymerwyd rhan ymhellach gan Mrs Jennie Roberts, Mrs Verna Jones, Mr Maurice Jones, Mr Norman Williams, Mr Robert John Williams a Mrs Ifanwy Jones. Cyhoeddwyd y Fendith gan Mrs Mair Davies.

Gwasanaethwyd yn oedfa'r hwyr gan Mr Glyn Owen, Llanwnda, gyda thestun addas i'n paratoi ar gyfer y Nadolig — 'Awn hyd Fethlehem',

Roedd gwasanaeth cyntaf y flwyddyn 2000 dan ofal y Parch H. Gwynfa Roberts, Llanwnda a chafwyd neges bwrpasol ganddo i'r Eglwys ar drothwy Mileniwm newydd.

Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod Suliau Chwefror:
6: Mr Evan Jones, Bontnewydd - 10; 13: Parch Eric Jones, Bangor - 2; 20: Parch Emrys Thomas, Caernarfon - 2; 27: Parch Harri Parri, Caernarfon - 10.



*Llongyfarchiadau i Helen Lyon, Cae'r Madog a Garry Jones a briododd yn ddiweddar yn Sri Lanka.*


ANTUR WAUNFAWR LLETY

Mae Antur Waunfawr yn chwilio am lety posib i wirfoddolwr/wraig ar gynllun CSV a allai fod yn dod i weithio i'r Antur o Chwefror i Medi.
Hunan arlwyo neu wely a brecwast.
☎ (01286) 650 721
www.anturwaunfawr.org

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch CAR. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

AA
MOT
RAC
GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £££ ichwi ac yn ymestyn oes eich car
AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...




BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: (01286) 675175 a 677858

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263**

YMDDEOLIAD. Dymuna Nan o Ddeiniolen oedd yn Ofalwraig Cartref ym mhentrefi Penisarwaun, Brynrefail, Cwm-y-glo a Llanrug ddiolch i bawb am bob cresso a gafodd yn eu cartrefi ac am eu haelioni. Diolch hefyd i'm cyd-weithwyr am eu haelioni hwythau. Bûm yn hapus iawn yn cyd-weithio gyda chwi oll.

DIOLCHIADAU. Dymuna Wavel Roberts, London House ddiolch yn arw iawn i'w holl gwsmeriaid am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn ac yn enwedig dros gyfnod y Nadolig.

Hefyd, fe ddymuna Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf ddiolch i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion Nadolig, ac hefyd am yr arian a dderbyniwyd i roi blodau ar fedd Len.

Diolch i'r teulu i gyd am eu caredigrwydd dros dymor y Nadolig ac am y cardiau a'r anrhegion pen-blwydd.

DYMUNIADAU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau mawr i Mrs Mair Jones, 1 Bonc ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar Ionawr 1. Gobeithio eich bod wedi cael dathliad da gyda'r teulu.

Dathlu ei ben-blwydd yn 50 wnaeth Alun Pierce, Artmor, Bryn Moelyn ac fe gafwyd hwyl iawn yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon. Llongyfarchiadau i ti, Alun.

PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau mawr i Mr a Mrs Wil Roberts, Glan Moelyn ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLWN â Mr John Ellis, Cae Gwyn, Caernarfon (Rhos Rug cynt) yn ei brofedigaeth fawr o golli ei wraig. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu igyd.

Bu farw Mrs Myfi Roberts, Rhes Plastirion yn sydyn iawn ar Ionawr 14. Does ond ychydig fisoedd ers i'w gŵr annwyl, Harry, farw. Anfonwn ein cydymdeimlad â'r teulu, Hefin, Daphne a Vaughan yn arbennig. Bydd chwith mawr ar ei hôl, yn enwedig ei gweld o amgylch y sgwâr, Anti Myfi i gymaint ohonom.

GWAELEDD. Rydym yn deall fod llawer o bobl wedi bod yn wael gyda'r ffliw sydd wedi effeithio'r wlad i gyd. Anfonwn ein cofion at bawb gan obeithio eich bod yn gwella erbyn hyn. Mae Miss Meirwen Roberts, Ganllwyd, Bryn Moelyn yn yr Ysbyty a hefyd Mrs Ceridwen Williams, Hafan Elan, brysiwch wella. Mae Mrs Jean Pritchard, 8 Gwêl Fynydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ers wythnosau erbyn hyn. Cofion gorau iddi hithau a brysiwch adref.

LLWYDDIANT ARHOLIAD. Llongyfarchiadau mawr i Mark Pitts, Y Gelli, Ffordd yr Orsaf, sydd wedi ennill 'merit' yn ei arholiad Piano Gradd 3. Da iawn ti.

YSGOL GYNRADD. Enillydd Cenedlaethol - Dyna ydi hanes Iwan Arwel Jones, Blwyddyn 4. Daeth Iwan yn gyntaf yng nghystadleuaeth 'ras gefn' yng Ngala Nofio Genedlaethol yr Urdd ym Mangor yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iddo.

CROESO'N ÔL i ddwy o gyn-ddisgyblion yr ysgol - Clare Louise Evans, sydd yma am dair wythnos fel rhan o'i chwrs ymarfer dysgu o Goleg y Brifysgol Bangor a Bethan Williams, a fydd yma am dymor o Goleg Menai.

CYDYMDEIMLO. Rydym yn cydymdeimlo yn ddwys iawn â Ieuan Wyn yn ei brofedigaeth o golli ei dad yn ddiweddar.

TÎM PÊL—RWYD. Bu tîm pêl-rwyd a phêl-droed Blwyddyn 6 yn cystadlu mewn twrnament yr Urdd ym Mangor. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Heather Thatcher am hyfforddi y tîm pêl-rwyd unwaith eto.

Bu Blynyddoedd 1 a 2 ar ymlweiad â Chastell Caernarfon fel rhan o'u thema.

LLONGYFARCHIADAU i Michelle Roberts, 6 Tal y Bont am lwyddo gydag anrhydedd mewn arholiad canu Gradd 6 yn ddiweddar.


Mae pethau'n dechrau symud gyda'r Co-op. Yn gyntaf mae yna oriau agor newydd. O fis Chwefror ymlaen bydd y Co-op ar agor bob dydd rhwng 8.30 am hyd 5.30pm. Golyga hyn drwy'r awr ginio ac hefyd ar bnawn Mercher.

Gobeithiwyd agor yn hwyr ar ddwy noson, sef nos Fawrth a nos Iau, tan 7.30pm. Ond bu rhaid gohirio hyn gan i Jane gael damwain a thorri ei choes gan olygu y bydd i ffwrdd o'i gwaith am sawl wythnos. Dymunwn wellhad buan iddi.

Cafwyd grant o £3,000 gan gwmni CYMAD tuag at greu cynllun busnes a ffurfio holiadur i gael barn y cyhoedd am y ffordd orau ymlaen. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan berson proffesiynol a gobeithir ei gychwyn yn y dyfodol agos.

Mae'n siŵr fod llawer ohonoch gyda syniadau da ar sut i wella'r Co-op yn barod. Er mwyn i'r syniadau a'r awgrymiadau yma weld golau dydd cyn gynted â phosibl rhoddwyd bocs syniadau *'Sut i Wella'r Co-op'* yn y siop. Mae yna ddigon o bapur a biros hefo'r bocs felly dechreuwch sgwennu neu gwnewch nodyn adra a'i daro i mewn.

Gyda'ch help a'ch cefnogaeth cawn weld newid byd yn Co-op Llanrug a chychwyn llewyrchus i'r milflwydd hwn.



*Iwan Arwel, Blwyddyn 4 Ysgol Llanrug a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth nofio dull cefn dan 10 oed yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd.*


**TEITHIAU PERIS**


**48 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
**Ffôn: 872777**

- Gwasanaeth effeithlon, cyfeillgar, dwyieithog
- Gwyliau i unigolion, teuluoedd neu grwpiau
- Penwythnosau yn theatrau Llundain
- Teithiau tramor i gorau ac i ysgolion
- Bargeinion munud olaf

Cynrychiolwyr The Global Travel Group plc (ATOL 83073)

**GWYN JONES**
**FFENESTRI ERYRI**
**GARTH ISAF, LLANRUG**
**(01286) 650764**
**neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741**

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ *Porches*
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

**GORSAF BETROL**
**Esso BERAN**
**DEINIOLEN**
**Ffôn: (01286) 871521**

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

# COLEG CYMUNED

## Y newyddion diweddaraf o Goleg Menai

### Cydweithio i hyrwyddo amgueddfa leol

Bu grŵp o fyfyrwyr Celf a Dylunio Coleg Menai yn gweithio ar brosiect yn seiliedig ar y diwydiant twristiaeth yn ddiweddar trwy ddylunio poster i hyrwyddo Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis.

Roedd yr Amgueddfa yn awyddus i gynhyrchu poster i'w werthu yn eu siop a phenderfynwyd cysylltu â'r Uned Celf a Dylunio yn y coleg gan gynnig y prosiect fel cystadleuaeth i'r myfyrwyr.

Brîff y myfyrwyr oedd dylunio poster diddorol a deniadol i blant rhwng 9 a 13 oed, yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â'r amgueddfa ar ffurf lluniadau ar gyfer ei werthu yn y siop. Treuliodd grŵp o fyfyrwyr o'r cwrs Celf a Dylunio CGCC Uwch 2 ddiwrnod yn yr amgueddfa er mwyn gwneud gwaith ymchwil.

Gwaith Andrew Poslethwaite o Foelfre a ddaeth i'r brig ac y mae wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda Celia Parry, Swyddog Addysg yr Amgueddfa, a'r Swyddog Arddangosfeydd ar y drafft cyntaf i ddatblygu poster terfynol a fydd yn cael ei argraffu. Oherwydd safon uchel y gwaith yn gyffredinol cynhaliwyd arddangosfa o waith y myfyrwyr eraill yn yr Amgueddfa hefyd.

Meddai Celia Parry: 'Bu'r prosiect yma yn llwyddiannus iawn a'n gobaith yw cydweithio eto gyda'r coleg yn ystod y flwyddyn nesaf ar brosiect arall.'

### Un Dyn Bach ar Ôl

Bu myfyriwr Clefyddydau Perfformio o Lanrug yn chwarae un o'r prif rannau yn y pantomeim a lwyfannwyd gan y coleg yn Theatr Gwynedd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. *Un Dyn Bach ar Ôl* gan Terwyn Tomos, pantomeim wedi ei leoli mewn syrcas, oedd y cynhyrchiad eleni a chymeriad o'r enw Tishw ap D'Meani a chwaraeai Dafydd Jones, myfyriwr ar ei ail flwyddyn yn y coleg. Rhyw gymeriad 'diniwed' braidd oedd Tishw, dan fawd ei fam, Dr Carotini D'Meani!

Llwyfannodd y myfyrwyr 18 o berfformiadau a chafwyd cynulleidfaoedd sylweddol ar eu cyfer i gyd. Wedi'r holl waith caled, cafodd Dafydd, fel gweddill y cast, egwyl byr haeddiannol cyn ail-afael yn ei astudiaethau ar ddechrau'r flwyddyn. Y cyfarwyddwr oedd Ias S. Lloyd o Gaernarfon, darlithydd Celfyddydau Perfformio yn y coleg.



*Dafydd (Tishw) — canol — gyda Wil Wirion (Darren Ward) a Dr Carotini D'Meani (Melanie Williams).*


**Eisteddfod Gadeiriol**

**MYNYDD Y CILGWYN 2000**

**2il a 3ydd Mawrth am 6 o'r gloch yn Neuadd y Pentref Carmel**

(Am Fanylion Pellach Cysyllter â (01286) 882 508 neu 881 817

**EMYR JONES**

**PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI**

Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thrĕdio peipiau

**44 Glanffynnon LLANRUG Caernarfon 673513**

MAE'R **SAMARIAID** YN GWRANDO YN ABBEY ROAD **BANGOR (01248) 354646**

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

**G. EVANS**



ARBENIGWYR TRWSIO CYRFF CEIR

**Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug**

**(01286) 678030**

**GARTH MAELOG**

**PET CENTRE AND GROOMING SALON**

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**

**J.M. JONES A'I FEIBION**

**GWAITH CERRIG BEDDAU**

**Y SGWÂR LLANRUG**

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

*sain*



yn cyflwyno
CYNGERDD
**"GWLAD I MI"**

yn Theatr Gogledd Cymru, Llandudno
*Nos Iau, Mawrth 16, 2000 - 7.30*

***

JONSI'n cyflwyno:

**JOHN AC ALUN * BROC MÔR**
**DYLAN A NEIL * IONA AC ANDY**
**a Dawnswyr Llinell ALI CATS**

***

**Tocynnau £8.50**

**AR WERTH YN AWR o'r Theatr 01492 872 000**

Dewch i fwynhau Gŵyl Canu Gwlad gorau'r wlad. Cyfle hefyd i ennill gwobrau hael!

## CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YMDDEOLIAD. Dymuna Nan o Ddeiniolen, oedd yn Ofalwraig Cartref ym mhentrefi Penisarwaun, Brynrefail, Cwm-y-glo a Llanrug diolch i bawb am bob croeso a gafodd yn eu cartrefi ac am eu haelioni tuag ati. Diolch hefyd i'm cyd-weithwyr am eu haelioni hwythau. Bûm yn hapus iawn yn gweithio gyda chwi oll.

YSGOL CWM-Y-GLO. Dymuniadau gorau i bawb ar ddechrau'r flwyddyn 2000. Carem ddiolch i bawb am eu holl gefnogaeth i weithgareddau'r ysgol ddiwedd y tymor diwethaf.

Cawsom dri pherfformiad llwyddiannus o'r ddwy sioe 'Y Goeden Fach Unig' a 'Pwy fydd y Seren?' Diolch i Mr Islwyn Jones am gofnodi'r cyfan ar gamera ac i nifer o'r rhieni am wneud fideo Bydd hyn i gyd yn gofnod i'w gadw i gofio troad y mileniwm.

Llongyfarchiadau mawr i Diane a Dylan o Ddolafon ar enedigaeth Ffion Haf. Mae Cheryl wrth ei bodd gyda'i chwaer fach newydd. Ychydig cyn y Nadolig fe ddaeth Mrs Orritt, ein cogyddes, yn nain eto — i Dafydd y tro hwn. Mae Daniel ei frawd mawr wedi cael mêt bach i chwarae. Llongyfarchiadau i deulu Nigel a Judith yn Llanberis.

Anfonwn ein cofion at Mrs Rhian Jones, ein gofalwraig, sydd ar hyn o bryd adref o'i gwaith. Brysiwch wella Mrs Jones.

Enillwyr Clwb yr Ysgol y tymor diwethaf oedd:
Medi: Mr Ted Roberts a Mr Kieth Williams, Cwm-y-glo;
Hydref: Mrs Ann Jones, Nant Peris a Mrs Sian Jones, Dolafon;
Tachwedd: Mr Gwilym Wiliams a Mr Kieth Williams, Bryn, Cwm-y-glo;
Rhagfyr: Mrs M Smith, Bro Rhythallt a Mrs Rita Morris, Brynrefail.

CYMEITHAS RHIENI AC ATHRAWON. Cynhaliwyd noson o ganu Carolau llwyddiannus iawn yn yr ysgol ar Rhagfyr 16. Mawr ddiolch i Seindorf Arian Llanrug am roi eu hamser a'u talent i ni ac i Mrs Hughes am arwain y noson a fwynhawyd gan bawb. Gan gynnwys arian y raffl gwnaed elw o £1,000, a diolch i gwmni Abbey National am addo 'match funding' i'r arian.

Mewn blwyddyn mae'r Gymdeithas Rheini ac Athrawon gweithgar wedi codi dros £3,000 o arian. Swm arbennig dros ben i'r ysgol ac i'r plant. Mawr ddiolch i bawb sydd yn ein cefnogi.

Enillwyr y raffl oedd: £100: D. Pritchard; £50: Mrs Williams, Deiniolen: £30: (01407) 710106; Gwin: A. Cullen; Llestri: H. Owen; Bathset: 872384; Gwin: Emyr Jones; Siocled: 51, Maes Padarn, Llanberis; Body lotion: Joyce Jones: Gwin: Ann Lewis; Planhigyn: J. Nicolson; Gwin: Oriel Cwm; Mini Vac: Kirsten Rees (dim cyfeiriad na rhif ffôn).

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Magan Jones, 21 Dolafon ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd i Mrs Cathrine Foulkes, Rhes Bryn ar ôl triniaeth i'w llaw.

DIOLCH. Dymuna Mrs Jill Harris, Tŷ Capel ddiolch yn ddiffuant i'w ffrindiau am y cardiau, anrhegion, ymweliadau a'r galwadau ffôn tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch yn arbennig i Nan a Pam, gofalwyr yn y Cartref, am bob caredigrwydd. Diolch yn fawr.

LLONGYFACHIADAU i Diane a Dylan, 22 Dôl Afon ar enedigaeth eu merch Ffion Haf, chwaer fach i Cheryl.


MENTER FACHWEN. Nos Iau, Rhagfyr 9 cynhaliwyd Ffair Nadolig yng Nghaban y Cwm. Gwerthwyd nwyddau wedi eu gwneud gan weithwyr Menter Fachwen ac eitemau gan grefftwyr lleol eraill.

Enillwyd y gwobrau raffl fel â ganlyn:
Poteli Gwin: Hilda Orritt, Moira Ellis, Gwenda Roberts a Meirion; Dairy Box: Carys Williams; Teisen Nadolig: Robin Sutherland; Bara Brith: Hilda Orritt; Coffi a Bisgedi: Robin Williams; Ornament: Jean Hughes; Sebon ayyb: Talafon, Allt Goch; Llyfr: 870928; Cerdyn Arbennig: Mari Roberts; Llyfr Cyfeiriadau: Huw Jones; Ceir Bach: 871757; Bum Bag: Robin Sutherland; Torch: Christine Jones.

Robin Sutherland a ddyfalodd agosaf i faint o Smarties oedd yn y botel a Mrs Esme Jones, 24 Dolafon oedd yr un a ddyfalodd enw'r ddoli, Branwen oedd yr enw. Bydd raffl Mr Yummy yn cael ei thynnu cyn bo hir.

Dymuna staff a gweithwyr Menter Fachwen ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth ar y noson a diolch yn arbennig i bawb a fu mor garedig a danfon rhoddion i Gaban y Cwm tuag at y Raffl.

### Ar y Brig Eto!




Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, llyfr gan gyhoeddwyr lleol, Gwasg Gwynedd, Caernarfon, oedd ar frig y siart yn ystod mis Rhagfyr. O'r holl lyfrau Cymraeg i oedolion a gyhoeddwyd ar gyfer y Nadolig, hunangofiant Gerallt Lloyd Owen, 'Fy Nghawl Fy Hun' a werthodd orau. Roedd dau lyfr arall o'r un wasg yn y Deg Uchaf — 'Dal i Sbecian Dros Fy Sbectol', John Roberts Williams yn drydydd a 'C'mon Reff', Gwyn Pierce Owen, yn chweched.

Yn ôl Cyngor Llyfrau Cymru, Nadolig 1999 oedd y gorau erioed o ran gwerthiant llyfrau — cynnydd o 18% ar werthiant y flwyddyn cynt.

## DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

MARWOLAETH. Ar Ionawr 5, yn ei gartref yn 4 Maes Eilian, bu farw Mr Glyn Sinclair yn 44 oed. Roedd Glyn wedi cael salwch hir a blin. Bu gwasanaeth ei angladd yn Eglwys Llanrug a rhoddwyd ei gorff i orffwys ym Mynwent yr Eglwys. Gedy wraig, Karen a phedwar o blant, sef Alan, Vicky, Gareth a Paul. Anfonwn fel ardal ein cydymdeimlad llwyraf â hwy fel teulu yn eu profedigaeth.

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall fod y canlynol yn Ysbyty Gwynedd. Mr Rex Faulker, Fron Dirion; Mr John Brennan, Afallon a Mr Ray Bowen, Tan y Marian. Hyderwn y bydd i'r tri gael dod adref yn lled fuan wedi cael adferiad iechyd. Brysiwch adref wedi gwella.

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf at Mrs Lynes yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Julia oedd wedi bod yn byw yn Llundain am rai blynyddoedd.

Hefyd mae Morfudd Jones, Bryn Hyfryd wedi colli ei hewythr, sef Mr Derlwyn Jones. Ef wedi ei eni a'i fagu yn Nhŷ Capel Sardis ac wedi cael byw i fod dros ei 90. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyraf â chwi i gyd yn eich profedigaethau.

CYMEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Ar Rhagfyr 16 cafwyd noson o Garolau yn y Ganolfan. Trefnwyd y rhaglen gan Miss Nellie Wyn Jones. Cymerwyd rhan gan blant Ysgol Sul MC wedi eu dysgu gan Mrs Katie Ll Hughes. Hefyd cafwyd itemau gan aelodau Sardis a'r plant. Wrth y piano yr oedd Mrs Margaret Cynfi Griffith ac arweinydd y noson oedd Miss Marian Jones.

Yn anffodus ni chafwyd Cyfarfod Gweddi ddechrau'r flwyddyn, er newid y dyddiad oherwydd yr oedd cryn nifer o'r aelodau hefo'r ffliw. Nid oes ond gobeithio y bydd pawb wedi gwella erbyn Ionawr 20, gan fod Mr Ralph Jones o Lanberis yn cadw noson inni o dan lywyddaieth Miss Nellie Wyn Jones. Ar Chwefror 17 fe fydd Mrs Eryl Roberts o Lanrug hefo ni.

MYNWENT MACPELAH DEINIOLEN. Rwyf yn siŵr fod gan ardal Dinorwig a Deiniolen le mawr i ddiolch i Gyngor Gwynedd am y gwaith da sydd wedi cael ei wneud i dacluso'r fynwent uchod. Mae yn werth ei gweld, ond yn anffodus y mae yna un broblem fawr yn aros. Sef defaid. Cyn y Nadolig fe fu i lawer o deuluoedd a ffrindiau fynd a blodau ar eu hanwyliaid (yr unig beth a allwn wneud bellach iddynt, sef dangos parch a dweud diolch). Yn anffodus erbyn y bore wedyn yr oeddynt wedi eu malu a'u bwyta gan ddefaid. Gwelais fwy nag un yn ei dagrau. Oherwydd y sefyllfa druenus yma ga' i ofyn yn wylaidd iawn os yw perchennog y defaid yma yn ddarllenydd o'r Eco — wel, gobeithio fod gair i gall yn ddigon.

BRYSIWCH WELLA. Mae aelodau'r Gymdeithas Lenyddol yn anfon eu cofion at Mr Tydfil Jones, Rhydfadog ac am ddweud 'Bryswich 'Wella' wrtho. Mae Tydfil yn aelod ffyddlon o'r Gymdeithas ond mae wedi bod am beth amser yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y cawn eich gweld yn ôl yn fuan.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

**BWS BACH AR LOG**



Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

**D. P. OWENS**
RHIWLAS
01248-361044

**GWYNETH ROBERTS**
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION





Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati
**BECWS ERYRI**
Stryd Fawr, Llanberis 870491

# Llythyr o'r America

Arvon,
Baraga Co.
Michigan
May 8th 1885

Anwyl frawd,

Derbyniais dy garedig lythyr ddechreu yr wythnos hon, a da gennyf ei gael. Byddaf yn falch iawn o gael llythyr maith, felly nid oes perygl i ti fy mlino gyda meithder. Fel yr oeddyt yn sylwi, mai digon priodol i mi fuasai ceisio ychwaneg o 'bapur teneu', rhag eich arwain i gostau yna. Bum yn meddwl fy hunan am roddi y wers honno i chwithau yna, lawer gwaith, am yr un rheswm ag yr oeddyt tithau yn ei roddi i minnau. Ond mi ddylwn mai gwell oedd peidio, am ein bod ein dau wedi syrthio i'r un pechod a llawer pregethwr trwy feithder. Fodd bynnag fe geisiaf wneud i fynny a chwi o hyn allan gan ysgrifennu ychydig yn fannach, am nad yw y 'papur tenneu' yn fy ngafael, ac y mae yr hen *stock* wedi darfod ers tro.

Yr oedd yn dda iawn gennyf gael ar ddeall fod M.J. Williams wedi bod yna gyda chwi, ac wedi derbyn yr holl groesaw gennych. Buasai yn beth yn edrych dipin yn oeraidd iddi ddod i'r wlad yma heb ddod yn adnabyddus a chwi, oni fuasai? ond mi ddyliwn nad yw felly. Yr oeddwn yn synnu clywed ganddi ei bwriad o ddod, am y rheswm nad oeddwn wedi awgrymu unwaith iddi am ddyfod, achos yr oeddwn wedi gwneud hynny yn benderfyniad, ac mi gredaf fy mod wedi gwneud yn goeth yn hynny o beth. Nid wyf yn credu mewn hudo neb yma, dyn neu ddynes, ond os y bydd yn dewis dod o hono ei hun goreu oll. Felly, gan ei bod am ddod nid wyf am wneud tro gwael a hi o gwbl, achos mi gredaf mai gwaith digon anhawdd fydda taro ar un mor ddymunol ym mhob ystyr a hi. Yr oeddwn yn disgwyl cael rhyw fath o galondid mewn gair, oddiwrth Nhad neu mam mewn perthynas a hi, ond hwyrach ei bod yn ddigon buan.

Wel, nid oes dim i'w wneud bellach yma, ond chwilio am le i'w feddiant ei hun, mewn rhyw ran o'r wlad yma, a cheisio ei wneud yn gartref cysurus. Yr wyf yn rhwym o fyned am dir y *Spring* nesaf, os nad af yr haf hwn, felly caiff hi ddigon o amser i ddod i arferion y wlad, a dod i benderfyniad a wnaiff hoffi, a'i na wnaiff ...

Rwyn credu mewn siarad yn blaen fel yna weithiau, fel y galloch fod yn gwybod am gyfeiriad fy amcanion, hwyrach y cewch araeth ar yr un testun yn bur fynych. Y mae Rhagluniaeth o fy ochr yn amlwg iawn hyd yn hyn yn y wlad yma, a Diolch am hynny, dim byd yn groes, nes peri blinder a phoen, a gobeithio mai felly y daw ym mlaen llaw, onide? 'pa beth bynnag a ofynoch yn fy enw i, fi a'i rhoddir i chwi'. Byddaf yn gweled gwerth mawr iawn mewn hynny o grefydd sydd gennyf yn y wlad yma. Y mae yn sicr o fod yn *help* i bawb ac yn gadernid mawr yng nghanol llawer o demtasiynnau.

Byddaf yn meddwl llawer iawn am adnod a ddywedodd Mr Jones wrthyf y noswaith olaf y bum yn Seiat Capel Coch. 'a Duw bob gras, yr hwn a'ch galwodd chwi i'w dragwyddol ogoniant trwy Grist Iesu, wedi i chwi ddioddef ychydig, a'ch perffeithio chwi, a'ch cadarnhauo, a'ch cryfhao, a'ch sefydlo' 2 Pedr 5:10 Adnod werthfawr iawn, onide?

Da gennyf ddeall eich bod fel ieuenctyd tua'r capel mor ymdrechgar gyda'r G. Ddadleuol, nid oes dim yn well na chyfarfodydd o'r natur yna. Cefais i bleser mawr y gauaf diweddaf gyda chyfarfodydd cyffelyb fel y bum yn dy hysbysu o hynny.

Pa fath dywydd y mae wedi ei wneud yna y gauaf diwethaf yma? Nid ydyw y gauaf wedi myned heibio yma etto. Y mae yn lle ag y mae tymhor haf yn fyr iawn. Pan y deuais yma gyntaf yr oedd yma tua llathen o drwch o eira, ond yr oedd wedi myned i ffwrdd cyn pen y pythefnos i gyd, a chawsom dywydd hyfryd iawn ar ei ol. Ond yr wythnos hon y mae fel pe bai am ail ddechrau gauaf etto. Y mae yn oer ac yn bwrw eira gwlyb ers dau ddiwrnod, nes y mae tua troedfedd o drwch, a hwnnw yn *clots* o'r peth butraf a welais erioed. Rhoddaf hanes y fan yma a fy meirniadaeth arno i ti mewn llythyr etto, am fod hwn yn myned yn faith. Fel y dywedaist, y mae yma le da i fagu *melancholy*, ond nid wyf wedi profi dim o'i flas etto. Yr wyf yn disgwyl gair gan E. Williams cyn hir, ac mi rwyn sicr y bydd ynddo rai *pills* pur anhawdd i'w llyncu, wedi eu pwrcasu ganddo ef a M. Kate, os nad ant dros yr afon at 'Hughes Druggist' am help. Tro garw oedd i Eliza roddi Sion C. Conwy mor agos i'w chalon gyhyd o amser onide? Dyna yr oreu a glywais oddi yna ers tro.

Bu R.R. Williams i fynny yma ddoe, gyda dau ddyn y mae wedi ei ennill yn *bartners* gyda'g ef yn y chwarel. Dau ddyn arianog iawn o Minnesota, ac yr oedd yn dweud ei fod am ddechreu ei chwarel yn fuan iawn. Dyna oedd ei rwystr ar ei ffordd o hyd, methu a cael Co. digon cryfion. Nid oedd yn werth ganddo ddechreu ar ei gost ei hun, ac yr oedd yn gall iawn hefyd. Bydd hyn yn ddaioni garw i'r chwarel yma, achos y mae ei llond yn barod, ac fe rydd R. Williams fwy o gyflog o lawer nag a rydd y Saeson yma. Yr oedd yn dweud ei fod wedi cael llythyr oddiwrth J.P. Jones, ei fod wedi cael gwaith yn St. York, mewn tua 10 milltir i Fair Haven. Yr oedd yn dweud wrtho ei fod yn difaru yn arw na buasai wedi gwrandaw ar ei gynghorion a roddodd iddo cyn cychwyn oddiyma, sef am aros yma, neu myned gyda ei wraig i Dakota. Yr oedd yn dweud ei fod wedi gwario ei arian oll. Druan o John Parry. Yr ydwyf wedi meddwl llawer iawn am yr olwg a gefais arno, ac nis anghofiaf yn fuan chwaith.

Yr oeddyt yn gofyn pa beth a wnei gyda fy arian, wel, yr oeddwn wedi meddwl am dy hysbysu yn ddigon buan, digwyddaist son, pryd yr oeddwn innau am son wrthyt y gair cyntaf y buaswn yn ei ysgrifennu attat, a dyma ydyw hynny, am i ti eu codi bob un oddi yno (o'r club) a'i rhoddi i John O. Jones neu mewn *Bank* yn Caernarvon, yr un fynot, ac os byddi cystal ag anfon y llog yma i mi er mwyn iddynt fod yn union arian yn y *Bank*. Mae yn fwy na thebyg y bydd arnaf eu h'eisiau cyn y bydd pen blwyddyn etto, ac mi fuasai yn costio dipyn i mi ei codi pen y flwyddyn, fel y gwyddost. Onibai fy mod am fyned am dir ni buasai eu h'angen arnaf yma o gwbl. Buaswn yn eu rhoddi mewn rhyw le diogel mewn tir yma. Y mae rhoddi arian ar dir wedi gwneud llawer yn werth miloedd o rai a adwaen i tua Wisconsin. Rhoddi arian ar *Mortgage* a'r *Mortgage* yn rhedeg fel nas gallai y benthyciwr eu talu, yna y tir yn dod yn eiddo y ffordd honno.

Wel, rhaid terfynnu gyda'r cofion goreu attoch oll.

Ydwyf, dy frawd
Owen W. Rowlands. Arvon
Baraga Co. Michigan.

Paid ag anfon llythyr byr, pe baet yn ddim ond ei lenwi a geiriau. Ni choelet ti byth mor falch fyddaf o lythyr a gwaith darllen ynddo.

* * *

**Yn y rhifyn nesaf o'r Eco byddwn yn rhoi ychydig o'r cefndir i'r gyfres ddiddorol yma o lythyrau a gafodd eu cyhoeddi dros y misoedd diwethaf yn yr Eco.**


CARPEDI GERAINT OWEN
GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
Sefydlwyd 1980
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)
NHBC
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: (01286) 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

## Rhedwyr Eryri'n Concro Bryniau Clwyd

Ganol fis Ionawr, ar bnawn heulog ond deifiol o oer, mentrodd nifer dda o redwyr y fro i bentref diarffordd Llangynhafal yn nyffryn Clwyd i gystadlu yn un o rasus mynydd cynharaf y flwyddyn. Aelodau o Glwb Rhedwyr Eryri enillodd y prif wobrau i gyd. James McQueen o Fethesda oedd yn fuddugol, bron i bum munud ar y blaen i'r rhedwr nesaf, a hynny ar ôl pum milltir o redeg a mil a hanner o droedfeddi o ddringo caled i gopaon Moel Fammau a Moel Dywyll. Eilir Evans o'r Felinheli (yn wreiddiol o'r Waunfawr, ac yn ddiweddarach o Benisarwaun) oedd y rhedwr cyntaf dros ddeugain oed, a Don Williams o Fynydd Llandegai yn gyntaf dros hanner cant oed. Daeth Dylan Jones o Ddeiniolen yn chweched yn y brif ras: bydd angen cadw llygad ar hwn os pery i wella fel yr â'r tymor rhagddo!

Bydd y ras fynydd nesaf yn cael ei chynnal ar Fynydd Caergybi ym Môn, ond bydd yn rhaid disgwyl hyd ddechrau Mawrth cyn cael ras yn nes adref pan gynhelir Ras Moelyci ger Rhiwlas.

**COFIWCH ANFON EICH STRAEON I'R GOLYGYDD CHWARAEON**

## Ar Ben Arall y Lein

Mae rhai yn siŵr o ddweud nad lwc a wnaiff wella pysgotfa sydd wedi ei niweidio mor ddrwg efo llygredd, ond yr ateb yw mae'n rhaid gwneud y lwc, a dyna beth sydd wedi bod yn mynd ymlaen dros y ddwy flynedd a fu. Yn barod, dros yr amser yma, mae 20,000 o eogiaid bach wedi eu stocio yn Nant Peris ac uwchben Ceunant Mawr, Llanberis. Yn ogystal â hyn mae dros 6,000 o smolts wedi mudo o'r ddeorfa i'r môr. Y lwc y gobeithir amdano yw y daw rhai o'r rhain yn ôl oddeutu fis Gorffennaf nesaf fel grilse, sef eog wedi bod yn y môr am un gaeaf. Mae cyflenwad o smolts eraill yn y tanciau yn barod i gael eu rhoi yn y tanciau gollwng ymhen rhyw ddau fis.

Os y dymuna unrhyw rai weld beth sydd yn mynd ymlaen yn y ddeorfa, rhowch ganiad ar Felinheli 670666, mae'n ddiddorol dros ben.

Cynhaliwyd y Pwyllgor Blynyddol yn yr Institiwt yng Nghaernarfon ar nos Iau, Rhagfyr 9 am 7 o'r gloch yr hwyr. Cafwyd cyflwyniad yno gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar y cyfrifydd pysgod ym Mhontllyfni. Mae'n werth gweld y fideo. Yn ogystal â physgod, mae'r cŵn dŵr i weld yn hoff iawn o chwarae yno. Digon o bysgod os yn teimlo'n llwglyd mae'n siŵr. Pasiwyd i godi'r tâl aelodaeth £4 i £89 y tymor, dim yn ddrwg am 40 milltir o sgota afon a 6 llyn. Hefyd rhaid peidio anghofio'r pysgod sy'n cael eu stocio i Dywarchen.

Am dri diwrnod o Hydref 18 gwelwyd Moc Morgan yn ffilmio rhaglen Afonydd Cymru ar y Seiont. Mae cyflwyniad ardderchog wedi ei wneud, nid yn unig o weithgareddau'r gymdeithas ond hefyd o unigolion a busnesau sy'n gwneud eu bywoliaeth ger yr afon, o'i geni yn y Nant i'r môr. Bydd yn cael ei darlledu ymhen ychydig wythnosau.

H.P. Hughes

## Eifion ar y blaen unwaith eto

Bu Eifion Williams, y nofiwr ifanc o Lanrug yn arbennig o lwyddiannus unwaith eto mewn cystadleuaeth genedlaethol. Am y tro cyntaf erioed fe gynhaliwyd Pencampwriaeth Cymru ym Mangor. Yn y cystadlaethau a gynhaliwyd ar ddiwedd mis Tachwedd cafodd Eifion chwe medal aur a thair medal arian. Da iawn chdi Eifion. Mae rhywbeth yn dweud wrthym y bydd mwy o lwyddiant i adrodd amdano yn fuan.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**




Beic 'di malu ac isio'i drwsio?
Mae Yncl Wil yn siŵr o blesio.
Am feiciau glân ail-law a phartiau,
Wel, yma cewch chi'r fargen orau.

**Cysylltwch â W. Jones**
**Waunfawr (01286) 650723**

**ANGEN CODI CLODDIAU O UNRHYW FATH A FFENSIO?**

Cysylltwch ag

**R. E. PRITCHARD**
**PARC, CARNEDDI, BETHESDA**
**(01248) 601216**

WALIO A FFENSIO

**Am y Gorau**
Pa fro sy' orau?

O ganu a dawnsio i greu crefftau a phapuro waliau, bydd wyth o fröydd Cymru 'Am y Gorau' i ddangos eu doniau.





Gyda Dyffryn Aman, Yr Wyddgrug, Bodffordd, Caerfyrddin, Llanarth, Dyffryn Peris, Bro Waldo a Llanuwchllyn i gyd yn cystadlu – mae enw da rhai o ardaloedd enwocaf Cymru yn y fantol!

Am y Gorau
8.00
Bob nos Sadwrn
yn cychwyn ar 19 Chwefror
www.s4c.co.uk

S4C

## CROESAIR CHWEFROR



ENW.................................................................................................

CYFEIRIAD......................................................................................

.............................................. CÔD POST ..........................

**Mae angen trwydded i gadw neu i wneud y rhai sydd heb gliwiau iddynt.**

**Ar Draws:**

11. Arwyddion y Sant ifancach (7)
12. Ci a choesau byr ganddo (5)
13. Daw arswyd o eiriau y colofnydd yn y papur wythnosol (3)
14. Rhoi addewid (3)
15. S.A.T.B. mewn côr cymysg (7)
16. Ponc Towyn heb ddim (4)
17. Heb amheuaeth (2-2)
20. Amser mewn mentr ofnadwy (3)
21. Sir cricedwyr Cymru (9)
23. Pysgod mawr pinc? (7)
27. Arfau eillio (7)
30. Gŵyl baratoawl (9)
31. Anifail digynffon tebyg i'r mwnci (3)
34. Ymdrech i sgorio? (4)
35. Trysorfa mewn traddodiad (4)
36. Trwsiadus (7)
39. Atsain y papur hwn (3)
40. Cwch drwg y 18 i lawr (3)
42. Lle i osod y traed arno (7)
43. Yn perthyn i'r nerfau (6)
44. Cei! (6)
45. Naill ai (3)

**I Lawr:**

1. Perswadio (5)
2. Gofalu am blant neu gleifion (6)
3. Un sy'n mesur gwerth (7)
4. Darnau pren dros warrau anifeiliaid sy'n cydweithio (5)
5. Dwyraniad Tomi, Dic a dim rhyngddynt (8)
7. Blagur (4)
8. Ysmudiadol (9)
9. Am un cyfnod tywyll! (5)
10. Ymladdwr (8)
18. Un o ochr arall y clawdd (4)
19. Edrych ar beth a bod yn ymwybodol ohono (5)
20. Y nifer sydd yn gweithio mewn ffatri wlân (3)
22. Dioddef (5)
24. Chwerwder gwerin dre yn meddwi (9)
25. Pennaeth y mynachlog (4)
26. Newid i ffurf modern (8)
28. Y wraig gyntaf (3)
29. Be, duo Lol? Mae'n llewyrchus (8)
33. Un o'r pethau mae 29 i lawr yn llawn ohonynt (6)
34. Cwt mewn llong? (5)
36. Tŷ heb do yng nghanol y don — mae'n fach iawn (5)
38. Llithro dros eira neu ddŵr ar ddarnau o bren (4)

### CROESAIR RHAGFYR

Derbyniais atebion i groesair Rhagfyr gan Chris ac Eirian Roberts, Llanrug; E.E. Jones, Rhoshirwaun; G.Gill, Bangor; Mabel Parry, Porthmadog; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Eirwen Roberts, Tregarth; Catherine A. Jones, Rhiw; Elfed Evans, Llanllechid; Jean Hughes-Jones, Rhiw; N Hughes, Cwm-y-glo; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Elwyn Evans, Llanfairpwll; Dorothy Jones, Llanrug; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Olwen Jones, Bethel; M.P. Jones, Clynnog (2); Jennie Williams, Clynnog; Eluned Jones, Pencaenewydd; Olwen Owen, Llanberis; Rosemary Williams, Tregarth; Gwen Davies, Neston, Wirral; Nansi Davies, Rhuthun; Mair Evans, Caernarfon; Moreen Lennon, Llanberis a Nan Owen, Llanberis.



Ymgais E. Eirwen Roberts, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth LL57 4AH a ddaeth o'r het. Llongyfarchiadau a £5 cynta'r flwyddyn i chi.

Anfonwch eich atebion i groesair Ionawr at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Chwefror 21.

## DYDDIADUR CHWEFROR

**3. Iau** **PENISARWAUN:** Disgo'r Urdd yn Ysgol Syr Hugh Owen.

**7. Llun** **DEINIOLEN.** Cymdeithas Llandinorwig gyda Mr Rol Williams.

**9. Mer** **BETHEL.** Merched y Wawr. Caligraffi gyda Mr Emlyn James.

**13. Sul** **PENISARWAUN.** Cymun Bendigaid gyda'r Parch D. Thomas, Esgob Cynorthwyol.

**14. Llun** **WAUNFAWR.** Y Gymdeithas. Sgwrs gan Mr Meurig Williams, Caernarfon.

**DEINIOLEN.** Cyngor Eglwysi yn Ebeneser am 7 o'r gloch.

**15. Maw** **BETHEL.** Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan Mr Vaughan Hughes.

**17. Iau** **DINORWIG.** Y Gymdeithas Lenyddol gyda Mrs Eryl Roberts, Llanrug.

**21. Llun** **DEINIOLEN.** Merched y Wawr gyda'r Prifardd Ieuan Wyn.

**28. Llun** **DEINIOLEN.** Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan y Rheithor, Y Parch J. Gareth Parry.

### RHODDION

£10: Mr a Mrs R. Lloyd Roberts, Northampton er cof am Mrs Maggie Humphreys, Rhydfadog, Deiniolen gynt;
Di-enw, Cwm-y-glo;
R.D. Lewis, 11 Maes Gwylfa, Deiniolen;
Dylan a Gethin, Cwm-y-glo;
Miss Beryl Thomas gynt o'r Swyddfa Bost, Llanrug;
Er cof am y ddiweddar Mrs Maud Jones, 1 Stryd y Dŵr, Llanberis;
Mrs Annie Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis.
£8: Miss Helen Munro, 1 Penrallt, Llanrug.
£6: Mr a Mrs John Brennan, Afallon, Dinorwig.
£5: Mrs M. Jones, Min y don, Cwm-y-glo;
Einir a Geraint, Cwm-y-glo;
Mr R.W. Williams, Gwelfynydd, Llanrug;
Barry a Gillian Price, 1 Hafod Garregog, Clwt-y-bont.
Ann Ellis Williams, Y Ddolwen Fach, Bethel;
Nan Jones, Deiniolen;
Nansi Jones, Meillionydd, Penisarwaun;
Mrs Megan Jones, Minffordd, Llanberis
Hugh a Rita Morris, 26 Maes Padarn, Llanberis.
£3: Bet Jones, Llanrug;
Donald a Luned Owen, Llanrug;
Mrs Mair Jones, 74 Maes Padarn, Llanberis.

**Cyfeillion Ysbyty Gwynedd**

**BORE CREMPOG**

**Canolfan yr Esbogaeth Stryd Waterloo, Bangor**

**Sadwrn, Mawrth 4**
**o 10.30 y bore ymlaen**


Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS
I DDATHLU PEN-BLWYDD neu PEN-BLWYDD PRIODAS
PARTÏON RHWNG 20 a 40
FFONIWCH AM FANYLION
A HEFYD COFIWCH AM EIN DeliBistro
Ffoniwch am fanylion
Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO nos Wener olaf pob mis

# CHWARAEON

## Hwre Henry! — Gobeithio

Mae'r amser 'yna' o'r flwyddyn wedi cyrraedd unwaith eto. Mwy o barodrwydd i olchi llestri, a defnyddio'r Hoover. 'Fasa' ti'n hoffi mynd allan am bryd o fwyd?' Dipyn o flodau! Dewis cyntaf i'r wraig o'r rhaglenni teledu. Aros yn y tŷ ar nos Wener. Chwilio am y crys a'r sgarff yn y cwpwrdd. Y rheswm? Mae cyfnod Pencampwriaeth y Pum — nage — Chwe Gwlad ym myd y bêl hirgron wedi cyrraedd. Amser y cynllunio, yr adfywiad cenedlaethol, y llu 'dewiswyr' answyddogol, y dyfarnwyr dall, a'r optimistiaeth blynyddol. Hon fydd ein blwyddyn NI. Eleni, am y tro cyntaf ers hydoedd ceir gêm brawf i geisio dewis y garfan genedlaethol. Mae 70 chwaraewr wedi derbyn yr alwad. Gwyn ein byd os oes gennym gymaint o chwaraewyr o safon cenedlaethol, ond ni allwn achwyn nad yw hwn a hwn wedi cael cyfle i ddal sylw ein Meseia rygbi.

Mae rhyw ramant hudolus pan ddaw y Crysau Duon a'u traddodiad draw ar daith. Mae her a 'chenedlaetholdeb' y Boer yn ei ôl yn lifrau De Affrig. Mae Awstralia, ble mae'r gêm yn bell o fod yn gêm genedlaethol, yn her aruthrol. Gyda phoblogaeth fechan ond trefniant datblygu a hyfforddi gwych, mae'r Wallabies yn arwain y byd. Eto, rhyw gemau pob hyn a hyn yw'r rhain. Y mae'r gystadleuaeth Ewropeaidd, a'r ymgiprys am y Goron Driphlyg neu'r Gamp Lawn yn wahanol. Dyma bwyfoldeb mewn lifrau cenedlaethol. Dyma'r adeg o'r flwyddyn pan y datganolir yn llwyr y Deyrnas Unedig! Cymro yw Cymro, a Sais yw Sais. Cefndryd Celtaidd efallai, ond dim am 80 munud.

Yn ei lyfr mae Graham Henry yn cyfaddef ei fod wedi camddehongli'n llwyr bwysigrwydd y gystadleuaeth hon ym mywydau pob dydd y Cymry. Achlysur cymdeithasol yw penwythnos 'y gêm' erbyn hyn, a chyfle i lawer un elwa'n ariannol sylweddol. Nid yw bod yn y maes yn llwyr orfodol erbyn hyn. Bod yn y ddinas benodol ar gyfer y 'craic' yw'r nod. 'P'run yw'r ffordd gyflymaf i Gaerdydd?' 'Gobeithio fod yr HSS yn hwylio.' 'Ddaru ni guro nhw yn Wembley — ond Twickenham?' 'Ti am Paris?' 'Ble mae'r Rue St. Denis yna?' 'Murrayfield di'r trip, ond argob mae o'n bell.'

Mae'n dymor diddorol eleni. Tymor ar ôl Cwpan y Byd a siomedigaeth y timau 'cartref' ar eu tomen eu hunain. Oedd Ffrainc yr ail dîm gorau yn y byd? Bydd y gwledydd yn edrych ymlaen i blygu crib y ceiliog. Lloegr yn ceisio ail-sefydlu eu hymerodraeth Ewropeaidd, heb y 'sceptics'.

Ffrainc ddaw i Gaerdydd yn y gêm gyntaf. Am gychwyn i'r tymor. Dau dîm yn benderfynol o redeg y bêl a'i lledu. Agorwch do ein stadiwm ysblennydd i'r wlad gyfan flasu'r awyrgylch. Ni fûm yn y stadiwm newydd, ond gobeithiaf weld y gêm hon. Daw'r Eidal draw wedyn. Cocyn hitio fyddant yn ôl y gwybodusion, ond yn newydd ddyfodiad eiddgar, mae'n siŵr bydd yr Azzuri yn rhoi o'u gorau. Gyda llaw, mae si ar led fod llawer o ferched yn barod yn llygadu y daith i Rufain y tymor nesaf. Wel, os ydynt eisiau mynd, oni ddylsem ni fynd hefyd i edrych ar eu hôl. Yna, daw'r uchafbwynt i ni'r gogleddwyr. Ar Ebrill 1, byddwn ni'r 'ffyliaid' yn croesi môr Iwerddon i Ddulyn. Dyma'r trip, gyda'r un hen wynebau i'w cyfarfod a phawb ddwy flynedd yn hŷn. O'Donaghues, Baggot Inn, cyngerdd Dafydd Iwan. Yr un yw'r drefn ond pam newid rhywbeth sy'n llwyddo.

Mae gennym record dda ar faes Ffordd Landsdowne. Diolch am y stadiwm hen ffasiwn hon a'i hawyrgylch drydanol wedi ei danio gan 'win y gwan'. Yr hen derasau, a'u toiledau awyr agored. Meistri'r ffug yw'r Gwyddelod. Tocynnau ffug, rhaglenni ffug. Cofiaf brynu rhaglen unwaith, agor y clawr a darllen cynnwys y gêm flaenorol rhwng Iwerddon a'r Alban. A beth yw cyfrinach y Gwyddelod o allu llwytho 50,000 i faes sy'n dal 45,000?

Twickenham wedyn. Nid wy'n hoffi Twicers. Bûm yno dair gwaith, colli dair gwaith. Mae gennyf ragfarn, gan nad wyf yn hoffi Llundain. Oherwydd yr M4, trip undydd yw gêm Lloegr i nifer o Gymru. Rhaid mynd i chwilio am awyrgylch ymysg poblogaeth ddi-hid Llundain. Mae'r awyrgylch yn eich swatio a'ch boddi yn y dinasoedd eraill. Daw'r Albanwyr, pencampwyr olaf y 'Pum Gwlad' i Gaerdydd am y gêm olaf. Gêm agored, llawn camgymeriadau a phwyntiau yw hon fel arfer. Cic John Taylor, gwyneb Gareth yn goch gan laid Parc yr Arfau wedi'r gais wefreiddiol honno. O dan pa set neu doilet mae'r fan gysegredig honno erbyn hyn ys gwn i? A chic anferth Paul Thorburn. Ie, cymysgedd o atgofion, Bill McLaren a'i olynydd teilwng Huw Eic, a'r edrych ymlaen disgwylgar yw'r bencampwriaeth hon. Pwy fydd arwyr neu ddihirod y tymor, tybed? Gobeithio y gallaf ddweud wrth groniclo,llwyddiant y crysau coch, fy mod i yno. Cymru! Cymru! 'Come on, Jenks.' Dim ond un broblem, 'oes gan rhywun docyn?'

## Cap a Chapten



*Iona Williams o Lanrug a ddewiswyd yn gapten tîm dan 18 pêl-droed Cymru.*

## Ar Ben Arall y Lein

Rhaid ymddiheuro am fod wedi esgeuluso'r bensel am rhyw ychydig fisoedd, efallai bod rhai yn dweud fod dim byd yn digwydd, ar adegau roeddwn yn credu mai dyna fel yr oedd cyn belled ag roedd 'sgota ar y Seiont yn y cwestiwn drwy fis Medi hyd at ddiwedd y tymor ar Hydref 17, 1999. Anodd yw credu mai 12 o eogiaid oedd wedi eu dal yn ystod y tymor ond, fel y gwyddoch, mae estyniad wedi bod mewn lle dros y pedair blynedd diwethaf i geisio profi fod yr eog yn rhedeg yn hwyrach oherwydd y newid yn y tywydd.

Yn ystod yr estyniad caniateid sgota â phluen yn unig o Bont Rhythallt i'r môr, a dros y cyfnod yma daliwyd 10 eog ychwanegol, wrth gwrs, roedd rhain yn cael eu gollwng yn ôl i'r afon. Rwy'n credu fod Asiantaeth yr Amgylchedd am wneud y penderfyniad dros y misoedd nesaf a yw'r estyniad am fod yn barhaol ai peidio.

Ar ôl blynyddoedd o dynnu sylw at y broblem o'r 'phosphates' yn cael eu gollwng i Lyn Padarn o waith carthffos Llanberis, fel mae rhai yn cofio mwyaf tebyg (y pechod yw nad oes rhai eisiau cofio chwaith), ond yn 1995 fe adeiladodd Dŵr Cymru beiriant i dynnu'r 'phosphates' yma o'r gweddillion. Ni fu llawer o lwc gyda'r peiriant am bron i ddwy flynedd. I fyny at ganol 1998 roedd safon y llyn ac Afon Seiont yn gwaethygu, a hyn er i Brifysgol Bangor, yn 1992, gynnal astudiaeth o'r broblem a darganfod bod y lefel 20 gwaith yn uwch na'r hyn a gâi ei argymell gan yr Undeb Ewropeaidd. Yn ystod haf '98 cafodd Dŵr Cymru eu hact at ei gilydd a daeth y gwarth hwn i ben. Mae pethau yn gwella'n ddyddiol ac mae'n dda gennyf ddweud, trwy dipyn o ffydd a lwc, y cawn weld gwelliant mawr yn y pysgota o ddechrau'r fileniwm ymlaen.

*parhad ar dudalen 18*

## Croeso'n Ôl

Braf yw gallu cyhoeddi fod clwb pêl-droed y Waunfawr wedi ail ymuno â Chynghrair Arfon. Daethant i'r Gynghrair yn griw brwdfrydig iawn, ond yn anffodus ni fu'r canlyniadau cystal â'r disgwyl. Gallant ymfalchïo yn safon eu maes, ac yna caed cryn gyhoeddusrwydd i broblem y 'defaid'.

Nid gwaith hawdd yw cynnal pêl-droed ar unrhyw lefel — ac yn y gêm fodern ymddengys fod costau dyfarnwyr a dynion y cardiau melyn a choch yn 'gwaedu' sawl clwb. Criw bach ym mhob clwb sy'n barod i werthu'r tocynnau raffl neu gynnal noson gymdeithasol i gynnal y clwb. Dim ond troi i fyny i chwarae sydd raid i'r chwaraewyr wneud yn aml. Y mae'r cyfan yn barod cyn iddynt gyrraedd y cae. Mae'n siŵr mai'r prif wahaniaeth mewn pêl-droed lleol yn y cyfnod yma yw fod y clybiau erbyn hyn yn y gymdeithas, ond yn aml ddim yn rhan anatod o'r gymdeithas leol. Daw'r chwaraewyr o du allan i'r pentref, ac i'r mwyafrif o'r boblogaeth mae canlyniad Lerpwl neu Manchester United yn fwy pwysig na'u tîm hwy, neu yn fwy manwl, y tîm sy'n chwarae yn eu pentref hwy.

Diolch i'r criw bach a gadwodd y fflam, a diolch i'r unigolion a wirfoddolodd i helpu. Gobeithio y bydd yr ail wynt yma yn danfon y Waun i fyny'r tabl, ac yn rhoddi cyfle i fechgyn lleol gynrychioli eu pentref, a gweld lles yn hynny.